

Priodas gyfartal:
Ymateb y
Llywodraeth

Rhagfyr 2012

Cynnwys

Rhagair y Gweinidog.....	4
Crynodeb Gweithredol.....	6
Cyflwyniad	9
Seremonïau priodas sifil i gyplau un rhyw	11
Cynigion yr ymgynghoriad	11
Crynodeb o ymatebion	11
Ymateb y Llywodraeth	13
Seremonïau priodas crefyddol i gyplau un rhyw ..	15
Cynigion yr ymgynghoriad	15
Crynodeb o ymatebion	16
Ymateb y Llywodraeth	17
Partneriaethau sifil.....	20
Cynigion yr ymgynghoriad	20
Crynodeb o ymatebion	20
Ymateb y Llywodraeth	21
Trosi partneriaethau sifil.....	22
Cynigion yr ymgynghoriad	22
Crynodeb o ymatebion	23
Ymateb y Llywodraeth	23
Partneriaethau sifil i gyplau rhyw arall	25
Cynigion yr ymgynghoriad	25
Crynodeb o ymatebion	26
Ymateb y Llywodraeth	26
Cydnabyddiaeth o rywedd.....	27
Cynigion yr ymgynghoriad	27
Crynodeb o ymatebion	28
Ymateb y Llywodraeth	28

Materion ehangach.....	30
Prosesau gweinyddol ar gyfer priodas a phartneriaethau sifil.....	30
Datganoli	30
Godineb ac anghyflawniad.....	31
Rhyngwladol.....	32
Pensiynau.....	32
Terminoleg.....	34
Rhyddid i lefaru.....	34
Addysg.....	34
Rhianta	34
Iechyd.....	35
Costau a manteision	35

Atodiadau

A) Deisebau a dderbyniwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad.....	36
B) Ymatebion a methodoleg ar gyfer dadansoddiad	38

Rhagair y Gweinidog

Mae priodas yn ddefod hynod bwysig yn y wlad hon. Mae'r egwyddorion o ymroddiad a chyfrifoldeb hirdymor sy'n sylfaen iddo yn uno cenhedloedd, ac yn gwneud ein cymdeithas yn un gref.

Mae priodas hefyd yn ddefod sydd â hanes o esblygiad parhaus. Wrth i'n cymdeithas newid, mae hithau hefyd wedi newid, gan ddod yn fwy agored i ystod eang o bobl. Yn wir, os gallwn ddysgu unrhyw beth o hanes priodas, mae hynny i amddiffynwyr priodas ar adegau angen bod yn ddiwygwyr radical. Yn ystod y 19eg ganrif, diddymwyd sawl anghyfiawnder o ran priodas. Yn yr 20fed ganrif, gwelwyd nifer o ymgyrchoedd mawr o ran statws menywod o fewn priodas. Mae'r rhain nawr wedi eu datrys: mae dynion priod a menywod priod nawr yn gyfartal gerbron y gyfraith.

Felly mae priodas yn yr 21ain ganrif yn ddefod gynhwysol, nid anghynhwysol. Mae ar gael i bawb sydd dros 16 oed sy'n barod i dyngu llw o ffyddlondeb ac ymroddiad am oes. Ac eithrio, hynny yw, os ydych yn digwydd caru rhywun o'r un rhyw. Nid yw'n bosibl fod hyn yn gyfiawn. Ers 1836, mae priodas wedi bod yn ddefod sifil, yn ogystal ag un grefyddol: mae'r wladwriaeth yn cydnabod hawliau cyfartal ym mhob agwedd o fywyd sifil ac ni all gyfiawnhau atal pobl rhag priodi oni bai fod yn rhesymau da iawn dros wneud hynny – nid yw bod yn hoyw neu lesbiaidd yn un ohonynt.

Dywed rhai bod hyn yn anghyfiawnder a gafodd ei unioni wrth gyflwyno partneriaethau sifil yn 2005. Yn sicr roedd hyn yn gam pwysig ymlaen, ond mae'r ffaith fod cyplau o'r un rhyw wedi eu heithrio rhag priodi yn parhau.

I mi, mae ymestyn priodas i gyplau un rhyw yn ymwneud â sut mae cymdeithas yn trin ei ddinasyddion – rydym oll yn gyfartal. Bydd yn cryfhau, yn hytrach na gwanhau, y sefydliad allweddol hwn ac yn helpu sicrhau ei bod yn parhau i fod yn gonglfaen allweddol i'n cymdeithas.

Ond fe wn fod yna bryderon. Er bod rhai sefydliadau crefyddol wedi datgan yr hoffent briodi pob cwpl, mae eraill wedi bod yn gwbl glir y byddai eu ffydd yn gwahardd hyn. Felly mae'r ymateb ymgynghorol hwn yn cyflwyno sut y byddwn yn sicrhau'n ddiamod na fydd unrhyw sefydliad crefyddol yn cael eu gorfodi i briodi cyplau o'r un rhyw, tra hefyd yn sicrhau fod sefydliadau sydd eisiau cynnal y priodasau hyn hefyd yn gallu cynnwys eu hunain fel y maent ar gyfer partneriaethau sifil.

Mae rhyddid i gred grefyddol yn bwysig i mi – ac i'r Llywodraeth – fel y mae cydraddoldeb i bawb gerbron y gyfraith. Mae cyfraith achos Llys Hawliau Dynol Ewrop a'r hawliau a ddiogelir yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn gosod diogelu hawliau crefyddol ar y mater hwn tu hwnt i amheuaeth. Byddwn yn creu cyfres o amddiffyniadau mewn deddfwriaeth i sicrhau y diogelir yr hawliau hyn ac na ellir erlyn unrhyw sefydliad crefyddol yn llwyddiannus am wrthod priodi cyplau o'r un rhyw.

Edrychaf ymlaen at drafodaeth rydd, agored a thrwyadl ar y ddeddfwriaeth y byddwn yn cyflwyno yn hwyrach yn y sesiwn Seneddol hon. Yn ystod yr wythnosau i ddod, ac wrth baratoi ar gyfer y Mesur sydd ar ddod, byddwn yn parhau i fodloni a thrafod y cynigion hyn gyda'r holl fuddgyfranogwyr.



Y Gwir Anrhydeddus Maria Miller AS
Gweinidog dros Fenywod a Chydraddoldeb

Crynodeb gweithredol

1.1 Ym Mawrth 2012, lansiodd y Llywodraeth ymgynghoriad a edrychodd ar sut i alluogi cyplau o'r un rhyw i briodi. Parhaodd yr ymgynghoriad am 13 wythnos, gan gau ar 14 Mehefin 2012. Anfonwyd ychydig dros 228,000 o ymatebion atom, ynghyd â 19 o ddeisebau. Dyma'r ymateb mwyaf i ni dderbyn erioed i ymgynghoriad gan y Llywodraeth, gan amlygu fod hyn yn fater pwysig i nifer fawr o bobl.

1.2 Ein hymroddiad, a amlinellwyd yn yr ymgynghoriad, oedd ystyried sut i alluogi cyplau o'r un rhyw i briodi. Er ein bod yn cydnabod fod yna nifer o farnau yn gwrthwynebu'r cynnig hwn, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion i'r ymgynghoriad (heb gynnwys deisebau) yn cefnogi agor priodas i gyplau un rhyw. Rydym yn parhau i fod yn ymroddedig i newid y gyfraith i ddarparu seremonïau priodas sifil i gyplau un rhyw.

Safbwynt cyfreithiol

1.3 Eglurodd yr ymgynghoriad na fyddai unrhyw sefydliad crefyddol na'i weinidogion yn cael ei orfodi i gynnal seremonïau priodas ar gyfer cyplau o'r un rhyw. Mae'r safbwynt hwn eisoes wedi ei warantu dan Erthygl 9 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, ac yng nghyfraith achos Strasbourg. Mae'r ymateb hwn yn cyflwyno 'clo pedwarplyg' o fesurau atodol y bydd y Llywodraeth yn gweithredu i sicrhau fod y safbwynt hwn yn gwbl tu hwnt i amheuaeth. Sef:

- sicrhau fod y ddeddfwriaeth yn datgan yn bendant na ellir gorfodi unrhyw sefydliad crefyddol, na gweinidog unigol, i briodi cyplau o'r un rhyw neu i ganiatáu i hyn ddigwydd ar eu heiddo;
- darparu system 'dewis' i sefydliadau crefyddol sydd eisieu cynnal priodasau i gyplau un rhyw;
- addasu Deddf Cydraddoldeb 2010 i adlewyrchu na ellir dwyn hawliadau o wahaniaethu yn erbyn sefydliadau crefyddol neu weinidogion unigol am wrthod priodi cwpl o'r un rhyw neu ganiatáu i ddefnyddio eu heiddo i'r diben hwn; a
- sicrhau na fydd y ddeddfwriaeth yn effeithio ar Gyfraith ganonaidd Eglwysi Lloegr neu'r Eglwys yng Nghymru.¹

¹ Mae Eglwys Lloegr wedi bod yr eglwys sefydledig ers amser maith, ac felly mae Cyfraith ganonaidd yn gosod dysgeidiaeth ac arferion yr Eglwys mewn deddfwriaeth.

1.4 Rydym yn cydnabod yn llawn sefyllfa unigryw Eglwys Lloegr a'r Eglwys Sefydledig. Yn anochel, derbyniwyd pryderon pe byddai'r gyfraith yn Lloegr yn newid i ganiatáu i bobl o'r un rhyw briodi, y byddai hyn yn gwrthdaro'n sylfaenol â Chyfraith ganonaidd. Yn ei ymateb fe nododd Eglwys Lloegr yn ôl y gyfraith² na ellir gwneud Canon sy'n groes i uchelfraint y brenin, arferion, cyfreithiau neu statudau'r deyrnas.

1.5 Nid ydym yn amau awdurdod yr Eglwys yma; fodd bynnag, mae'r un mor wir mai'r Senedd yw'r sofron ac y gall ddeddfu i ystyried gwrthdaro posibl â'r Gyfraith ganonaidd. Yn achos priodas, yn y gorffennol mae'r corff deddfwriaethol wedi ceisio osgoi gwrthdaro â'r Gyfraith ganonaidd trwy ddefnyddio cymalau eithriad a chydwybod er mwyn i'r Eglwys allu sefydlu safbwynt cydwybod sy'n gyson â'i athroniaeth ar natur priodas. Felly, er enghraifft, er bod deddfwriaeth yn caniatáu i bobl sydd wedi ysgaru ailbriodi, mae'r Eglwys a gweinidogion unigol wedi eu rhyddhau o'r orfodaeth i briodi'r bobl hyn³.

1.6 Rydym eisiau parhau gyda'r sgysiau adeiladol a gawsom gyda sefydliadau crefyddol a pharhau i weithio gyda sefydliadau crefyddol ar yr amddiffyniadau hyn wrth i ni baratoi i gyflwyno'r ddeddfwriaeth i'r Senedd

Seremonïau priodas crefyddol i gyplau un rhyw

1.7 Cynigiodd yr ymgynghoriad y byddai sefydliadau crefyddol yn cael eu gwahardd rhag cynnal priodasau ar gyfer cyplau o'r un rhyw. Credai'r rhan fwyaf o ymatebwyr ar y pwynt hwn y dylai sefydliadau crefyddol allu cynnal seremonïau priodas i gyplau un rhyw os dymunant.

1.8 Bwriada'r Llywodraeth ganiatáu i'r sefydliadau crefyddol hyn sydd eisiau cyflawni priodasau ar gyfer cyplau o'r un rhyw i 'ddewis' gwneud tra'n egluro nad oes unrhyw orfodaeth iddynt wneud hynny. Trwy'r system hon bydd yn parhau i fod yn anghyfreithiol i eglwys unigol neu fan addoli sy'n perthyn i'r eglwys honno i briodi cyplau o'r un rhyw heb gytundeb ei gorff llywodraethu.

Partneriaethau sifil

1.9 Roedd y rhan fwyaf o'r rhai a ymatebodd i'r cwestiynau hyn a sefydliadau cynrychiadol pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol y cawsom gyfarfodydd unigol gyda nhw yn cefnogi parhad partneriaethau sifil i gyplau un rhyw. Roedd y mwyafrif o'r rhai a ymatebodd i'r cwestiynau ymgynghori hyn hefyd tyn awgrymu y dylai partneriaethau sifil fod ar gael i gyplau rhyw arall, er i rai ddadlau mai dim ond priodas ddylai fod ar gael. Rydym yn dal heb ein perswadio fod ymestyn partneriaethau sifil i gyplau rhyw arall yn newid angenrheidiol. Felly byddwn yn cadw partneriaethau sifil ar gyfer cyplau o'r un rhyw yn unig.

2 Deddf Ymostyngiad y Clerigwyr 1533, s1, 3 ac a weithredwyd gan y Mesur Llywodraeth Synodaidd 1969, s1(3).

3 Er enghraifft, y Ddeddf Achosion Priodasol 1965, adran 8(2)(a), yn rhyddhau offeiriad o'i ddyletswydd i briodi'r rhai fyddai â'r hawl i briodi yn ei eglwys fel arall os yw un parti neu'r ddau wedi ysgaru a bod ei bartner ef neu ei phartner hi yn dal yn fyw.

Trosi partneriaethau sifil

1.10 Gwyddom y byddai oddeutu 50,000 o gyplau a unodd mewn partneriaeth sifil wedi dewis priodi, pe byddai'r dewis hwnnw ar gael. Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn ymgynghorol hwn yn cefnogi cyflwyno llwybr ble gellid trosi partneriaethau sifil i briodasau sifil. Ategwyd y neges hon yn ystod cyfarfodydd ar wahân gyda sefydliadau Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol. Bydd y llywodraeth yn darparu proses i drosi. Ni fydd cyfyngiad amser i'r broses hon.

Cydnabod rhywedd

1.11 Ar hyn o bryd rhaid i unigolion sydd eisiau newid eu rhywedd yn gyfreithiol derfynu eu priodas neu bartneriaeth sifil cyn y gellir cyhoedd tystysgrif cydnabod rhywedd llawn. Gall hyn achosi cryn dipyn o drallod a phroblemau ymarferol i gyplau. Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr a atebodd y cwestiynau hyn yn cytuno gyda'n cynllun i newid y gyfraith i ganiatáu i unigolion newid eu rhywedd gan ddal i fod yn briod.

Materion ehangach

1.12 Mae datblygiadau polisi hanesyddol, yn arbennig o ran budd-daliadau yn deillio o bensiwn y wladwriaeth, wedi golygu fod gan ddynion priod a menywod priod wahanol hawliau pensiwn. Pan gyflwynwyd partneriaethau sifil, cafodd partneriaid sifil yr un hawliau pensiwn ag oedd ar gael i ddynion priod. Cynigiwn y bydd cyplau o'r un rhyw yn cael eu trin yn yr un modd â phartneriaid sifil a dynion priod. Gydag amser bydd hawliau pensiwn yn cyfuno.

Camau nesaf

1.13 Mae'r Llywodraeth yn ymroddedig i gyflwyno'r ddeddfwriaeth hon o fewn cyfnod y Senedd hon, ac rydym yn gweithio tuag at sicrhau hyn o fewn y Sesiwn Seneddol hon. Yn ystod yr wythnosau nesaf, byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'r holl sefydliadau sydd â diddordeb yn y cynigion hyn.

Cyflwyniad

Deddfwriaeth bresennol

2.1 Dan Ddeddf Priodas 1949 a'r Ddeddf Achosion Priodasol 1973, caniateir priodas rhwng dyn a menyw ar yr amod eu bod dros yr oed cydsynio cyfreithiol ac yn barod i dyngu llw o ffyddlondeb ac ymrwymiad am oes. Fodd bynnag, os yw cwpl sy'n caru ei gilydd yn digwydd bod o'r un rhyw, yna maent wedi eu heithrio.

2.2 Cyflwynwyd y Ddeddf Partneriaeth Sifil 2004 i ganiatáu cydnabyddiaeth gyfreithiol o bartneriaethau rhwng cyplau o'r un rhyw. Yn Rhagfyr 2011, daeth hefyd yn bosibl i gofrestrriad partneriaeth sifil ddigwydd ar eiddo crefyddol, os oes y sefydliad crefyddol wedi cydsynio i wneud hynny. Fodd bynnag, mae'n dal i fod yn ffaith fod cyplau o'r un rhyw wedi eu heithrio rhag priodi.

2.3 Mae hanes priodas yn un o esblygiad parhaus. Arweiniodd newidiadau i'r gyfraith yn y 19eg ac 20fed ganrif fod priodas yn raddol ddod ar gael i bobl o bob ffydd ac i bob heb ffydd. Daeth dynion priod a menywod priod yn gyfartal dan y gyfraith. Yn arbennig o bwysig, yn 1836 daeth priodas yn ddefod sifil, yn ogystal ag un grefyddol.

Beth oeddem yn ofyn yn yr ymgynghoriad

2.4 Ni chredwn fod eithrio cyplau o'r un rhyw rhag priodi yn gyfiawn. Dyma pam, ym Mawrth 2012, y gwnaethom lansio ymgynghoriad oedd yn canolbwyntio ar sut ddylai'r Llywodraeth alluogi cyplau o'r un rhyw i briodi. Gofynnodd 16 o gwestiynau yn trafod:

- sut y gallai cyplau o'r un rhyw gael seremoni briodas sifil;
- a ddylai seremonïau priodas crefyddol fod yn bosibiliad i gyplau un rhyw;
- a ddylid cadw partneriaethau sifil ar gyfer cyplau o'r un rhyw un unig, a sut ddylid trosi partneriaethau sifil i briodasau;
- p'un a ddylai rhai sy'n ceisio newid eu rhywedd yn gyfreithiol allu parhau yn eu priodas;
- effeithiau ôl-ddilynol y cynigion hyn (yn cynnwys pensiynau a chydabyddiaeth ryngwladol).

Yr ymatebion

2.5 Derbyniodd y Llywodraeth dros 228,000 o ymatebion, heb gynnwys llofnodion ar ddeisebau, gyda bron i bob un yn ateb y cwestiwn yn gofyn a ydynt yn cytuno neu'n anghytuno gyda galluogi cyplau o'r un rhyw i gael seremoni briodas sifil.

228,000	Cyfanswm nifer yr ymatebion i'r ymgynghoriad – ar-lein, e-bost a gohebiaeth. Canfuwyd cefnogaeth neu wrthwynebiad i briodas sifil ar gyfer pob un o'r ymatebion.
Roedd hyn yn cynnwys:	
137,000	Ymatebion i o leiaf un o'r cwestiynau penodol eraill (3-13) a gyflwynwyd yn yr ymgynghoriad.
97,000	Llythyrau a negeseuon e-bost nad oeddynt yn ateb y cwestiynau yn benodol ond a roddodd sylw ar y cynigion
Roedd y 97,000 o lythyrau a negeseuon e-bost hyn yn cynnwys:	
75,000	Neges e-bost unfath oedd yn rhan o ymgyrch
Yn ogystal, derbyniom:	
Dros 500,000	o Llofnodion ar ddeisebau

2.6 Ceir rhestr o'r sefydliadau a ymatebodd ar wefan y Swyddfa Gartref. Ceir manylion y deisebau a dderbyniwyd yn Atodiad A.

Yr ymateb hwn

2.7 Mae'r ddogfen hon yn disgrifio'r barnau a fynegwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori ac yn amlinellu ffordd ymlaen arfaethedig y Llywodraeth i alluogi cyplau o'r un rhyw i briodi.

Seremoniau priodas sifil i gyplau un rhyw

3.1 Yn ei hanfod, mae priodas yn ymwneud â dau o bobl sy'n caru ei gilydd yn gwneud ymroddiad ffurfiol i'w gilydd. Ni chredwn fod yr ymroddiad hwn yn ddim gwahanol p'un a yw gan gwpl o'r un rhyw neu'n gwpl rhyw arall. Credwn trwy ganiatáu i gyplau un rhyw briodi ein bod yn atgyfnerthu'r ddefod o briodas.

Cynigion ymgynghori

3.2 Edrychodd ein cynigion ar sut i ganiatáu i gyplau un rhyw briodi trwy seremoni sifil.

Gofynnodd cwestiynau 1 a 2 "A ydych yn cytuno neu'n anghytuno gyda galluogi pob cwpl, waeth beth yw eu rhyw, i gael seremoni priodas sifil" a'r rhesymau pam.

Crynodeb o ymatebion

3.3 Ar draws yr amrywiol ddulliau a ddefnyddiwyd i ymateb, cawsom fwy o ymatebion i'r cwestiynau hyn nag i unrhyw rai eraill. Ar y cyfan, roedd gwahaniaeth barn. O'r 228,000 o ymatebion i'r ymgynghoriad, roedd 53% yn cytuno y dylai cyplau o'r un rhyw allu cael seremoni briodas sifil ac roedd 46% yn anghytuno (dywedodd 1% nad oeddynt yn gwybod neu nad oeddynt yn sicr). Mae hyn yn cynnwys yr holl ymatebion a ddynododd fod eu barn ar sail yr egwyddor o ganiatáu i gyplau un rhyw briodi, yn hytrach na dim ond y rhai a ymatebodd yn benodol i gwestiwn 1. Fodd bynnag, nid yw'r ffigurau hyn yn ystyried y deisebau hynny a dderbyniom, a oedd yn gyfan gwbl yn erbyn.

3.4 O fewn y 53% o'r bobl a sefydliadau a gytunodd gyda chaniatáu i gyplau un rhyw gael priodas sifil, mynegodd rai farn ar natur a phwysigrwydd priodas. Roedd hyn yn cynnwys eu cred ei bod yn gyfiawn i ganiatáu i gyplau un rhyw fynegi eu cariad a hapusrwydd yn yr un ffordd â chyplau rhyw arall, ac i'w caniatáu i gael mynediad at briodas a welir yn gymdeithas a chyfreithiol fel cwlwm cryf rhwng y cwpl.

3.5 Roedd ymatebwyr yn cydnabod fod cyflwyno partneriaethau sifil yn gam arwyddocaol ymlaen mewn cymdeithas. Fodd bynnag, roedd rhai o'r ymatebwyr, a oedd yn cytuno â'r cynigion, yn teimlo fod yna ormod o wahaniaethau, yn ymarferol ac yn symbolaidd, rhwng priodas a phartneriaethau sifil. Er enghraifft, nododd ymatebwyr y gellid ystyried "partneriaethau sifil fel math israddol o gofrestru" a bod y gwahaniaeth yn golygu fod "perthnasau un rhyw yn cael eu hymostwng trwy eu wfftio fel 'partneriaid sifil yn unig' neu 'ddim wedi priodi go iawn'". Nododd Stonewall yn eu hymateb fod

“sefydliadau ac unigolion, trwy fynnu fod priodasau a phartneriaethau sifil yn cael eu cadw ar wahân, yn bytholi'r syniad, hyd yn oed os yn anfwriadol, nad yw perthnasau rhwng cyplau o'r un rhyw yr un mor ddilys â'r rhai rhwng cyplau heterorywiol”.

3.6 Roedd y gred hon fod perthnasau rhwng cyplau o'r un rhyw a rhyw arall yn aml yn cael ei nodi fel gweld y perthnasau fel rhai cyfartal, fel y nodwyd gan yr Eglwys Undodaidd:

“Mynegodd y Cynulliad Cyffredinol ei gefnogaeth i gydraddoldeb llawn i bobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol, gyda 1977 yn datgan yn cadarnhau fod gweinidogaeth yn yr enwad yn agored i oll ac yn mynegi atgasedd yn erbyn gwahaniaethu ar sail cyfeiriadedd rhywiol... Mae'r safbwynt hwn yn adlewyrchu ein derbyniad hirsefydlog o ddilysrwydd cyfartal perthnasau un rhyw yn yr un modd â rhyw arall.”

3.7 Felly hefyd, roedd y mwyafrif o ymatebwyr oedd yn cytuno â'r cynigion yn gweld caniatáu i gyplau un rhyw gael seremoni briodas yn fater o gydraddoldeb, ac/neu hawliau dynol. Teimlai nifer o unigolion a sefydliadau, yn cynnwys y Bartneriaeth pobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol Cenedlaethol, fod “mynediad at briodas sifil yn gam pwysig ymlaen i bobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol, ac y gellid dadlau bod y gwaharddiad ar briodas sifil yr anghydraddoldeb mwyaf yng nghyfraith Cymru a Lloegr i bobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol”.

3.8 Yn ogystal â manteision cydraddoldeb y cynigion, roedd nifer o'r rhai oedd yn cytuno â nhw yn teimlo y byddai caniatáu i gyplau un rhyw briodi yn llesol i gymdeithas yn gyffredinol, ac y byddai'n adlewyrchu safbwynt cymdeithas a barnau cymdeithasol parthed cyplau o'r un rhyw. Nododd Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr hefyd:

“y byddai'r camau hyn yn cael effaith bositif ar agweddau cyhoeddus ehangach tuag at bobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol ac yn y pen draw yn cyfrannu i gymdeithas fwy cynhwysol ble mae mwy o ddewis a derbyniaeth”.

3.9 Fodd bynnag, roedd eraill yn anghytuno â'r barnau hyn ac nid oeddynt yn credu y dylai cyplau o'r un rhyw allu priodi. Nododd y rhan fwyaf o'r ymatebion hyn ei fod am nad oedd yn cyd-fynd â'r diffiniad cyfreithiol presennol o briodas, sef uniad rhwng dyn a menyw. O'r rhai a ddynododd eu bod yn erbyn y cynigion, dywedodd y mwyafrif ei fod oherwydd na allai gwir ystyr priodas gynnwys cyplau o'r un rhyw. Dyfynnodd Cynhadledd Esgobion Pabyddol Cymru a Lloegr y diffiniad a gynhwysir yn y Catecism⁴:

“Mae'r cyfamod priodasol, ble mae dyn a menyw yn sefydlu partneriaeth gydol oes rhyngddynt eu hunain, yn ôl ei natur wedi ei drefnu er lles y priod ac i genhedlu ac addysgu epiliaid”.

3.10 Cyflwynwyd y farn hon hefyd mewn deiseb gan y Glymblaid dros Briodas, a deisebau eraill, gan gynnwys gan Henaduriaeth Gyffredinol Ulster.

3.11 Mynegwyd yr un farn mewn ymatebion, gan gynnwys ymateb Eglwys Lloegr, a fynegodd bryder fod ein cynigion yn newid y diffiniad o briodas, fel y'i hamlinellir mewn dysgeidiaeth Gristnogol a Chyfraith Ganonaidd⁵ (fod priodas yn “...uniad parhaol ac am oes er gwell neu er gwaeth, hyd oni wahaner ni gan angau, o un gŵr gydag un wraig, gan eithrio pob un arall ar y naill ochr...”). Ategwyd y gred hon gan Gyngor Mwslimiaid Prydain Fawr, a ddyfynnodd y Qur'an (53:45): “Creodd Ef ei hun y pâr, gwryw a

4 Catecism yr Eglwys Babyddol, §1601.

5 Canon B30

benyw”. Roedd rhai ymatebion oedd yn nodi dadleuon crefyddol perthnasol i'r cynigion hefyd yn cefnogi'r farn hon.

3.12 Gwelodd Cynhadledd Esgobion Pabyddol Cymru a Lloegr, yr oedd eraill (er enghraifft, y Gynghrair Efengylaidd) yn cytuno â nhw, briodas fel rhywbeth seiliedig ar “gyfatebolrwydd biolegol dynion a menywod ac ar y posibiliad o blant”. Roeddynt hefyd yn mynegi pryderon y byddai newid y diffiniad o briodas yn y modd a argymhellwyd yn gwrthdaro gyda'r farn mai prif ddiben priodas yw cael a magu plant yn hytrach na dim ond bod yn fater o gariad ac ymrwymiad – a allai fod, er enghraifft, yn gariad ac ymrwymiad tuag at riant oedrannus, neu frodyr / chwiorydd yn cydfyw.

3.13 Roedd rhai o'r rhai nad oeddynt yn cefnogi'r cynnig i agor priodas i gyplau un rhyw yn credu fod partneriaethau sifil yn darparu amddiffyniad digonol a chyfatebol. Golyga hyn ei bod yn credu nad oedd yna unrhyw fantais ychwanegol i ddarparu mynediad i gyplau un rhyw at briodas.

3.14 Roedd nifer hefyd yn teimlo y byddai caniatáu i gyplau un rhyw briodi yn ddrwg i gymdeithas yn gyffredinol. Roeddynt yn credu y byddai, er enghraifft, yn cael goblygiadau negyddol ehangach neu'n anfon y neges anghywir i blant. Mynegodd ymatebwyr bryderon y byddai rôl a statws priodas yn ein cymdeithas yn dod yn fater rhy ysgafn, neu y byddai'n “arwain at fwy o ansefydlogrwydd i briodasau yn y wlad hon”. Roeddynt yn gweld priodas rhwng gŵr a gwraig fel rhywbeth o fudd sylfaenol i gymdeithas. Mewn cyferbyniad, teimlai rhai ymatebion, yn cynnwys y Gynghrair Efengylaidd, y byddai caniatáu i gyplau un rhyw briodi yn cael effaith negyddol ar briodasau pawb, a thrwy hynny ar gymdeithasol, gan y byddai'r ddefod wedi ei “gwanhau”.

3.15 Teimlai nifer o'r ymatebwyr a roddodd resymau dros eu gwrthwynebiad fod caniatáu i gyplau un rhyw briodi yn erbyn cydraddoldeb. Roedd hyn oherwydd pryderon y byddai'n mynd yn groes i hawliau pobl o ffydd, o blaid pobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol, yn arbennig gan na ellid gweld unrhyw fanteision atodol. Er enghraifft, roedd pryder fod hyn yn “rhoi triniaeth arbennig” i gyplau un rhyw neu y byddai'r cynigion hyn yn “arwain at droseddoli'r rhai sy'n anghytuno â phriodas un rhyw”.

3.16 Ceisiodd cwestiynau eraill wybodaeth am y galw dros y polisi hwn. Dywedodd y rhan fwyaf o'r rhai yr oedd y cwestiwn yn berthnasol iddynt y byddent yn cael seremoni briodas sifil. Ystyrir yr wybodaeth hon yn rhan o'r asesiad effaith a fydd yn cael ei gyhoeddi pan gyflwynir deddfwriaeth i'r Senedd.

3.17 Un o'r ffactorau a ysgogodd y newid hwn oes i ganiatáu i'r rhai sydd eisiau tystysgrif cydnabod rhywedd i aros yn eu priodas. Delir â'r barnau a fynegwyd a'r dystiolaeth a ddarparwyd ar y mater hwn yn yr adran cydnabod rhywedd.

Ymateb y Llywodraeth

3.18 Rydym yn cydnabod fod yna ystod eang o farnau cryf ar y mater hwn. Wedi ystyried yr ymatebion, mae'r Llywodraeth yn dal i fod o'r farn y dylai cyplau o'r un rhyw gael mynediad at seremoni priodas sifil. Credwn fod yr ymroddiad hwn gan gyplau un rhyw yr un fath â chyplau rhyw arall, ac felly na ddylid eu heithrio rhag priodi.

3.19 Bydd cyplau o'r un rhyw yn gallu cael seremoni priodas sifil, yn yr un modd ag y mae cyplau rhyw arall. Bydd yna'r un broses weinyddol a'r un geiriau neu lwon cytundebol. Bydd cyplau o'r un rhyw yn cyfeirio at ei gilydd i ddibenion cyfreithiol fel “gŵr a gŵr”, neu “gwraig a gwraig”. Byddai cwpl rhyw arall yn dal i ddefnyddio “gŵr a gwraig”. Bydd y meini prawf sy'n weithredol ar hyn o bryd i bennu pwy all lunio

priodas (e.e. oed cydsyniad, cysylltiadau teuluol, rhwng dau o bobl yn unig) yn parhau i fod fel nawr, ac nid oes gennym unrhyw gynlluniau i addasu'r meini prawf hyn.

3.20 Credwn fod y gyfraith bresennol eisoes yn darparu'r cydbwysedd priodol o fesurau diogelu. Bydd yn ofynnol i gofrestryddion adolygu a chofrestryddion, fel gweision sifil, gyflawni seremonïau priodas i gyplau un rhyw, ar yr un sail ag y mae'n ofynnol i gofrestryddion partneriaeth sifil gofrestru partneriaethau sifil i gyplau un rhyw ar hyn o bryd. Byddwn yn dal i weithio gyda'r gwasanaeth Cofrestru ar hyfforddi swyddogion cofrestru a gweithredu unrhyw brosesau newydd.

Seremonïau priodas crefyddol i gyplau un rhyw

4.1 Mae ffydd yn un o gonglfeini ein cymdeithas ac rydym yn parchu barn y rhai sydd â chredoau crefyddol. Mae ffydd wedi chwarae, a bydd yn parhau i chwarae, rhan enfawr wrth lunio diwylliant a threftadaeth y wlad hon. Rydym yn cydnabod y pryderon sydd gan nifer o bobl o ffydd ynglŷn â'r cynigion hyn.

4.2 Rydym hefyd yn cydnabod fod gan yr Eglwys Lloegr a'r Eglwys yng Nghymru, fel yr eglwys sefydledig, ddyletswyddau penodol yn cynnwys dyletswydd gyfreithiol i briodi pobl ble mae cyswllt i'w plwyf.

4.3 Er nad oes diffiniad cyfreithiol cyfredol o 'briodas grefyddol', gellir cyflawni seremonïau priodas 'crefyddol', fel y sefydlwyd yn y Ddeddf Priodas 1949, mewn sawl ffordd wahanol:

- priodas yn ôl defodau Eglwys Lloegr neu'r Eglwys yng Nghymru;
- priodas yn ôl arferion Cymdeithas y Cyfeillion (Crynwyr);
- priodas yn ôl arferion crefydd Iddewig;
- priodas mewn adeilad cofrestredig ym mhresenoldeb unigolyn neu gofrestrydd awdurdodedig.

Cynigion ymgynghori

4.4 Cynigiodd yr ymgynghoriad ganiatáu i gyplau un rhyw gael seremoni priodas sifil yn unig ac na fyddai unrhyw sefydliad crefyddol yn gallu cynnal priodasau ar gyfer cyplau o'r un rhyw. Rydym wedi datgan yn glir ar bob adeg na fyddai unrhyw weinidog unigol mewn sefydliad crefyddol yn cael ei orfodi i gyflawni seremonïau ar ran cyplau o'r un rhyw.

Gofynnodd cwestiwn 5 "Nid yw'r Llywodraeth yn cynnig agor priodas grefyddol i gyplau un rhyw. A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno gyda'r cynnig hwn?"

4.5 Eglurodd yr ymgynghoriad na fyddai unrhyw ddyletswydd gyfreithiol ar weinidogion Eglwys Loegr (na'r Eglwys yng Nghymru) i briodi cyplau o'r un rhyw. Nododd hefyd na ddylai unrhyw sefydliad crefyddol na weinidog crefydd wynebu her gyfreithiol lwyddiannus am wrthod cyflawni seremoni briodas ar gyfer cwpl o'r un rhyw.

4.6 Rydym yn deall bod athrawiaeth sawl ffydd yn grediniol mai dim ond rhwng dyn a menyw y gellir cael priodas, a bod y gred hon wedi ei chynnwys yn sylfaenol yn nysgeidiaeth eu ffydd. Datganodd yr ymgynghoriad na ddylai unrhyw un wynebu gweithredu cyfreithiol llwyddiannus am lefaru casineb neu wahaniaethu os ydynt yn pregethu eu cred mai dim ond rhwng dyn a menyw y dylid cael priodas.

Crynodeb o ymatebion

4.7 Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr a atebodd gwestiwn 5 yn uniongyrchol yn anghytuno â'r cynnig ac fe hoffent i seremonïau priodasau crefyddol fod ar gael i gyplau un rhyw.

4.8 Dyfynnodd ymateb Liberty sefydliadau oedd eisiau cynnal seremonïau priodas i gyplau un rhyw yn cynnwys y Mudiad dros Iddewiaeth Ddiwygiedig, yr Eglwysi Undodaidd a Rhydd Cristnogol ac Iddewiaeth Ryddfrydol. Codwyd hyn fel sylw atodol hefyd gan rai ymatebwyr a gytunodd gyda'r egwyddor o ganiatáu i gyplau un rhyw briodi.

4.9 Credai'r Bartneriaeth bobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol Genedlaethol:

“y dylai manau addoli unigol gael penderfynu a ydynt eisiau priodi cyplau o'r un rhyw neu beidio, a bod rhyddid crefyddol yn golygu na ddylai'r llywodraeth barhau i gefnogi'r gwaharddiad ar briodas grefyddol i gyplau un rhyw”.

4.10 Ategwyd hyn gan Stonewall, a deimlai fod caniatáu i gyplau un rhyw gael priodas grefyddol ar sail oddefol yn fater o “ryddid a pharch crefyddol”.

4.11 Ymatebodd rhai sefydliadau crefyddol, yn cynnwys yr Eglwysi Undodaidd a Rhydd, fod:

“hyn yn fater o ryddid crefyddol; nid ydym eisiau gorfodi ein barnau ar eraill; fodd bynnag, ni ddylai eu gwrthwynebiad ein hatal rhag gwneud yr hyn a gredwn i fod yn gyfiawn a chywir”.

4.12 Nododd Liberty eu cred “mewn rhyddid syniadau, cydwybod a chrefydd a chredwn y dylai hyn gynnwys yr opsiwn i grwpiau ffydd ddewis a ydynt am gynnal priodasau un rhyw neu beidio”. Roeddynt yn cefnogi hawliau'r sefydliadau crefyddol hynny oedd eisiau gwneud, i hefyd cynnal seremonïau priodas i gyplau un rhyw. Cefnogwyd hyn hefyd gan y farn gyfreithiol a atodwyd i'w cyflwyniad a amlygodd:

“Mae'n anodd iawn i weld sut y gellid cyfiawnhau ymyrryd â rhyddid crefyddol eglwysi trwy ofyn iddynt ddathlu priodasau y maent nid yn unig yn ystyried i fod yn athrawiaethol amhosibl, ond hefyd nad ydynt mewn gwirionedd yn briodasau fel cymesur gan dalu sylw i bwysigrwydd hawliau dan Erthygl 9 a'r gyfraith achos o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol”.

4.13 Cyfeiriwyd at hyn hefyd gan Gynhadledd Esgobion Pabyddol Cymru a Lloegr, a ymatebodd fod ei gwneud yn anghyfreithlon i gynnal priodasau un rhyw ar eiddo crefyddol yn “creu problem arall unwaith o ryddid crefyddol ar gyfer y grwpiau hynny megis y Crynwyr sydd wedi datgan y byddent yn dymuno dathlu priodasau un rhyw ar eu heiddo crefyddol”. Roedd hyn yn farn a rannwyd gan y Crynwyr a fyddai eisiau cynnal seremonïau priodas ar gyfer cyplau o'r un rhyw

4.14 Credai rhai o'r ymatebion gan bobl a ddeliodd â'r pwynt hwn y dylid gorfodi pob sefydliad crefyddol i gynnal seremonïau priodas ar gyfer cyplau o'r un rhyw.

4.15 Mynegodd nifer o'r rhai oedd yn anghytuno y dylai cyplau o'r un rhyw allu priodi bryderon y byddai sefydliadau crefyddol dan bwysau i gynnal seremonïau priodas ar gyfer cyplau o'r un rhyw neu y byddent yn cael eu gorfodi i wneud hynny, naill ai dan ddeddfwriaeth ddomestig neu yn dilyn dyfarniad gan Lys Hawliau Dynol Ewrop. Roedd y sefydliadau a fynegodd bryder yn cynnwys Eglwys Lloegr a Chyngor Mwslimiaid Prydain. Teimlai Eglwys Lloegr "os yw aelod wladwriaeth yn dewis gwneud darpariaeth yn ei gyfraith ddomestig ar gyfer priodas un rhyw, yna yn ôl y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol mae priodas un rhyw wedi ei diogelu gan y Confensiwn yn yr un modd ag y mae priodas rhyw arall wedi ei diogelu: Mae'r hawl i briodi a gynhwysir yn erthygl 12⁶ yn berthnasol i'r ddau gategori o ran y wladwriaeth honno."

4.16 Rydym yn croesawu'r ystyriaeth drwyadl gan nifer o ymatebwyr i'r sail gyfreithiol ar gyfer ein cynigion. Er enghraifft, asesiad yr Eglwys yn Lloegr oedd:

"Pe byddai cyplau rhyw arall yn gallu ymroi i'r ddefod o briodas (dan ei diffiniad newydd) gyfreithiol yn unol â naill ai â ffurfiau a seremonïau crefyddol neu sifil ond bod cyplau o'r un rhyw yn ymroi i'r ddefod honno dim ond yn unol â ffurfiau a seremonïau sifil, byddai hynny ynddo'i hun yn annhebygol o gyfateb i doriad o erthygl 12 gan na fyddai trefniant o'r fath yn amddifadu cyplau o'r un rhyw o sylwedd yr hawl i briodi. Ond byddai yna ragolwg difrifol o her lwyddiannus i'r trefniant hwnnw dan erthygl 14⁷ ar y cyd ag erthygl 12, ar y sail y gwahaniaethir yn erbyn cyplau o'r un rhyw parthed mater oedd o fewn cwmpasiad erthygl 12".

Ymateb y Llywodraeth

4.17 Mae'r Llywodraeth yn cydnabod a pharchu rôl bwysig crefydd yn ein cymdeithas. Mae cymunedau ffydd yn gwneud cyfraniad allweddol i fywyd cenedlaethol yn y Deyrnas Unedig, gan ysbrydoli nifer fawr o bobl i wasanaeth cyhoeddus a darparu cymorth i'r rhai sydd mewn angen. Gwyddom fod yna nifer o bobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol sy'n gredinwyr, a bod nifer o gredinwyr yn cefnogi'r cam i ganiatáu i gyplau un rhyw gael seremoni briodas yn eu man addoli. Ar yr un pryd rydym yn cydnabod a pharchu'r rhai sydd â phryderon ynglŷn â'r goblygiadau i sefydliadau crefyddol o ganiatáu i gyplau un rhyw briodi trwy ddulliau crefyddol neu fel arall.

4.18 Wedi ystyried yr holl farnau a fynegwyd, credwn fod cryfder i'r dadl, unwaith y bydd priodas ar gael i gyplau un rhyw, y dylid caniatáu i sefydliadau crefyddol gynnal seremonïau o'r fath os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Byddwn yn dal i weithio gyda sefydliadau fydd sydd eisiau priodi cyplau o'r un rhyw wrth i ni ddatblygu'r broses fanwl i alluogi hyn i ddigwydd.

4.19 Fodd bynnag, bydd yn dal i fod yn anghyfreithlon i sefydliad crefyddol briodi cyplau o'r un rhyw oni bai ei fod yn cydsynio a dewis gwneud hynny'n benodol yn unol â phroses ffurfiol a sefydlir mewn deddfwriaeth. Mae'r Llywodraeth yn ystyried dilyn y 'clo pedwarplyg' o amddiffyniadau ar gyfer sefydliadau crefyddol nad ydynt eisiau priodi cyplau o'r un rhyw:

- bydd y ddeddfwriaeth yn datgan yn bendant na ellir gorfodi unrhyw sefydliad crefyddol, na gweinidog unigol, i briodi cyplau o'r un rhyw neu i ganiatáu i hyn ddigwydd ar eu heiddo;

6 Mae Erthygl 12 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn darparu hawl i fenywod a dynion o oed priodi i briodi a sefydlu teulu.

7 Mae hyn yn cynnwys gwahardd gwahaniaethu yn erbyn pobl yn eu mwynhau o hawliau a rhyddidau y Confensiwn

- bydd yn anghyfreithlon i sefydliadau crefyddol, neu eu gweinidogion, i briodi cyplau o'r un rhyw oni bai eu bod wedi dewis gwneud hynny yn benodol a bydd y ddeddfwriaeth yn esbonio nad yw unrhyw gyfraith yn gorfodi unrhyw sefydliad crefyddol i ddewis gwneud hyn.

4.20 Gyda'i gilydd, bydd y ddwy ddarpariaeth hyn yn sicrhau na ellir gweithredu yn erbyn sefydliad crefyddol neu weinidog os yw'r sefydliad crefyddol hwnnw yn gwrthod dewis cyflawni priodas grefyddol. Yn ogystal:

- bydd Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cael ei haddasu i adlewyrchu na ellir dwyn hawliadau o wahaniaethu yn erbyn sefydliadau crefyddol neu weinidogion unigol am wrthod priodi cwpl o'r un rhyw neu ganiatáu i ddefnyddio eu heiddo i'r diben hwn; ni fydd y ddeddfwriaeth yn berthnasol i Eglwys Lloegr (na'r Eglwys yng Nghymru), na'u Cyfraith Ganonaidd. Golyga hyn y bydd yn parhau i fod yn anghyfreithlon i'r eglwysi hyn briodi cyplau o'r un rhyw neu i ddewis gwneud hynny.

4.21 Rydym yn cydnabod yn llawn sefyllfa unigryw Eglwys Lloegr a'r Eglwys Sefydledig. Yn anochel, derbyniwyd pryderon pe byddai'r gyfraith yn Lloegr yn newid i ganiatáu i bobl o'r un rhyw briodi, y byddai hyn yn gwrthdaro'n sylfaenol â Chyfraith ganonaidd. Yn ei ymateb fe nododd Eglwys Lloegr yn ôl y gyfraith⁸ "nad oes gan Ganoniaid effaith os ydynt yn groes i arferion, cyfreithiau neu statudau'r deyrnas".

4.22 Nid ydym yn amau awdurdod yr Eglwys yma; fodd bynnag, mae'r un mor wir mai'r Senedd yw'r sofran ac y gall ddeddfu i ystyried gwrthdaro posibl â'r Gyfraith ganonaidd. Yn achos priodas, yn y gorffennol mae'r corff deddfwriaethol wedi ceisio osgoi gwrthdaro â'r Gyfraith ganonaidd trwy ddefnyddio cymalau eithriad a chydwybod er mwyn i'r Eglwys allu sefydlu safbwynt cydwybod sy'n gyson â'i athroniaeth ar natur priodas. Felly, er enghraifft, er bod deddfwriaeth yn caniatáu i bobl sydd wedi ysgaru ailbriodi, mae'r Eglwys a gweinidogion unigol, trwy gonfocasiynau'r glerigiaeth, wedi eu rhyddhau o'r orfodaeth i briodi'r bobl hyn⁹.

4.23 Byddwn hefyd yn sicrhau nad yw'r ddeddfwriaeth yn amharu â dealltwriaeth y Gyfraith ganonaidd o briodas (Canon B 30), a dderbyniwn i fod yn fwy cyfyng na chyfraith sifil. Nid yw ychwaith yn fwriad gennym i greu sefydliadau cyfochrog o briodas. Hoffai'r Llywodraeth barhau gyda'r trafodaethau adeiladol gydag Eglwys Lloegr i sicrhau fod y ddeddfwriaeth yn delio'n ddigonol â'u hamgylchiadau unigryw.

4.24 Mae cyfraith achos Llys Hawliau Dynol Ewrop a'r hawliau a ddiogelir yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn gosod diogelu hawliau crefyddol ar y mater hwn tu hwnt i amheuaeth. Byddwn yn drafftio'r ddeddfwriaeth i sicrhau nad oes unrhyw bosibiliad o her gyfreithiol lwyddiannus mewn unrhyw lys domestig, neu y gallai Llys Cyfiawnder Dynol Ewrop orfodi unrhyw sefydliad crefyddol i gynnal priodasau ar gyfer cyplau o'r un rhyw yn erbyn eu hewyllys. Byddai unrhyw hawliadau posibl yn cael eu dwyn yn erbyn y Llywodraeth, yn hytrach na sefydliad i sicrhau na fyddai sefydliadau cyfreithiol yn gorfod defnyddio eu hadnoddau i frwydro unrhyw heriau cyfreithiol. Ni wyddom am unrhyw lys cenedlaethol sy'n ceisio gwneud hyn mewn aelod wladwriaeth ac nid oes gennym unrhyw fwriad i gyflwyno deddfwriaeth a fydd yn cael yr effaith hwn. Byddwn yn gwrthwynebu yn rymus unrhyw ymgais i danseilio'r rhyddid hirhoedlog sydd gan grefyddau yn y wlad hon i bregethu, dysgu ac i weithredu eu credoau ynglŷn â phriodas.

8 Deddf Ymostyngiad y Clerigwyr 1533, s1, 3 ac a weithredwyd gan y Mesur Llywodraeth Synodaidd 1969, s1(3).

9 Er enghraifft, y Ddeddf Achosion Priodasol 1965, adran 8(2)(a), yn rhyddhau offeiriad o'i ddyletswydd i briodi'r rhai fyddai â'r hawl i briodi yn ei eglwys fel arall os yw un parti neu'r ddau wedi ysgaru a bod ei bartner ef neu ei phartner hi yn dal yn fyw.

4.25 Mae Llys Cyfiawnder Dynol Ewrop wedi datgan nad yw'r Confensiwn Hawliau Dynol Ewropeaidd yn gosod gorfodaeth ar wladwriaethau i ddyrannu mynediad at briodas i gyplau un rhyw; mae hyn yn fater yn ôl doethineb gwladwriaeth unigol yn ôl anghenion ac amodau ei gymdeithas (gweler Schalk a Kopf, paragraffau 60 – 63). Er gwaethaf datganiadau i'r gwrthwyneb, nid yw'r achos mwy diweddar o Gas & Dubois v Ffrainc yn darparu unrhyw awdurdod i'r ddadl, os yw aelod wladwriaeth yn caniatáu i gyplau un rhyw briodi, bod yn rhaid iddi hefyd orfodi sefydliadau crefyddol i wneud hynny.

4.26 Rydym yn cydnabod fod hefyd angen rhoi ystyriaeth i faterion yn ymwneud ag, er enghraifft, eiddo a rennir. Byddwn yn dal i weithio'n agos gyda sefydliadau ffydd ar faterion penodol o'r fath a senarios i sicrhau fod y mesurau diogelwch angenrheidiol ar waith.

4.27 Byddwn yn gweithio gyda sefydliadau crefyddol wrth i ni symud tuag at ddeddfwriaeth, p'un a fyddant eisiau cyflawni priodasau ar gyfer cyplau o'r un rhyw neu beidio. Rhaid sicrhau cydbwysedd, ac rydym yn hyderus y gallwn ganiatáu hyn yn effeithiol mewn modd a fydd yn caniatáu i'r rhai nad ydynt eisiau seremoni briodas crefyddol i wneud hynny, ond gan ddiogelu sefydliadau a gweinidogion nad ydynt eisiau cynnal seremonïau o'r fath.

Partneriaethau sifil

5.1 Roedd partneriaethau sifil yn garreg filltir bwysig ar gyfer cydraddoldeb, ac i ddarparu hawliau, cyfrifoldebau ac amddiffyniad cyfatebol i gyplau o'r un rhyw â'r rhai a geir trwy briodas. Ers eu cyflwyno yn rhagfur 2005, mae dros 50,000 o bartneriaethau sifil wedi eu cofrestru. Nid yw partneriaethau sifil ar gael i gyplau rhyw arall ac mae deddfwriaeth yn dynodi gwaharddiadau eraill ar bwy all ffurfio partneriaeth sifil, er enghraifft, brodyr a chwiorydd. Ond mae gwahaniaethau yn dal i fodoli ac ar adeg cyflwyno, roedd yn amlwg fod partneriaethau sifil yn wahanol i briodas.

5.2 Yn Rhagfyr 2011, daeth yn bosibl i gyplau un rhyw gofrestru eu partneriaeth sifil ar eiddo crefyddol. Dim ond os yw'r sefydliad crefyddol yn cytuno i hyn y gall hyn ddigwydd, a rhaid i lofnodi'r gofrestr partneriaeth sifil ei hun fod yn seciwlar.

Cynigion ymgynghori

5.3 Cynigiodd yr ymgynghoriad gadw partneriaethau sifil i gyplau un rhyw yn y dyfodol ynghyd â galluogi cyplau o'r un rhyw i gael seremoni briodas sifil. Byddai hyn yn cynnwys cadw'r gyfundrefn bresennol o ganiatáu i bartneriaethau sifil ddigwydd ar eiddo crefyddol.

Holodd cwestiwn 6 "A ydych yn cytuno neu'n anghytuno gyda'r opsiwn o bartneriaethau sifil unwaith y bydd priodas sifil ar gael i gyplau un rhyw?"

Crynodeb o ymatebion.

5.4 Cytunodd y rhan fwyaf o bobl a ymatebodd i gwestiwn 6 gyda chadw partneriaethau sifil unwaith yr oedd gan gyplau un rhyw y dewis o seremoni briodas sifil. Cododd ychydig o bobl oedd yn cefnogi galluogi cyplau o'r un rhyw i briodi bwyntiau penodol hefyd oedd yn dynodi eu bod yn cefnogi cadw partneriaethau sifil unwaith fod priodas ar gael i gyplau un rhyw. Daeth cefnogaeth dros gadw partneriaethau sifil gan ystod eang o sefydliadau, yn cynnwys Stonewall, Cymdeithas y Cyfreithwyr, Cyngor Dinas Birmingham a'r TUC. Meddai Cymdeithas y Cyfreithwyr:

"byddai'n annheg ac yn gyfreithiol amheus i'r cyplau hynny wynebu'r dewis o naill ai briodi neu beidio bod mewn perthynas ffurfiol. Ni welwn unrhyw fantais ymarferol i ddi-ddymu partneriaethau sifil".

5.5 Nid oedd rhai ymatebwyr unigol eisiau cadw partneriaethau sifil wedi cyflwyno priodas sifil gyfartal – ar y cyfan, roedd y rhain yn y lleiafrif. Nododd rhai o'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn hwn y dylid eu diddymu ac fe gododd rhai hyn yn rhan o'r sylwadau a wnaed (tu allan i'r atebion penodol i gwestiwn 6). Roedd y sylwadau hyn yn cynnwys y rhai a gredai na ddylid eu cadw am eu bod yn anghytuno â phartneriaethau sifil yn gyffredinol, yn hytrach na parthed cyflwyno priodas. Roedd eraill eisiau gweld darpariaethau cyfartal i gyplau un rhyw a rhyw arall ac yn gweld diddymu partneriaethau sifil yn dilyn cyflwyno priodas un rhyw fel modd o gyflawni hyn. Cyflwynir barnau ar ymestyn partneriaethau sifil i gyplau rhyw arall ar dudalen 25.

Ymateb y Llywodraeth

5.6 Wedi ystyried yr ystod o farnau, bwriadwn fwrw ymlaen gyda'r cynigion yn y ddogfen ymgynghori i gadw partneriaethau sifil ar gyfer cyplau o'r un rhyw yn unig, gan gynnwys parhau i ganiatáu partneriaethau sifil ar eiddo crefyddol. Mae hyn am ein bod yn cydnabod y rôl bwysig y mae'r uniadau hyn yn chwarae ym mywydau nifer o gyplau. Mae partneriaethau sifil yn uniad y mae nifer wedi ei deall, ac sydd wedi dod yn rhan o fywydau dyddiol pobl a chymdeithas yn gyffredinol. Ni welwn fawr o fudd o'u diddymu.

5.7 Bydd ffurfio partneriaeth sifil yn parhau gyda'n union yr un prosesau gweinyddol a rheolau ag sy'n bodoli ar hyn o bryd. Mae hyn yn cynnwys rheolau presennol yn ymwneud â chyfnodau rhybudd, cydsyniad rhieni, oed a thystion.

5.8 Rydym wedi bod yn glir ar bob cam mai nod yr ymgynghoriad hwn a deddfwriaeth ddilynol yw galluogi cyplau o'r un rhyw i briodi, yn hytrach na diwygio ehangach, ac felly nid oes angen diddymu partneriaethau sifil llawn i gyflawni'r nod hon.

5.9 Er y byddwn yn cydnabod priodasau rhwng cyplau o'r un rhyw a ffurfiwyd dramor fel priodasau, bydd cadw partneriaethau sifil yn ein galluogi i gydnabod uniadau sifil un rhyw (nad ydynt yn briodasau) fel partneriaethau sifil yn y Deyrnas Unedig.

Trosi partneriaethau sifil

Cynigion ymgynghori

6.1 Rydym yn ymwybodol pe byddai'r dewis o briodas wedi bod ar gael, y byddai rhai cyplau o'r un rhyw o bosibl wedi llunio priodas, yn hytrach na phartneriaeth sifil. Felly fe gynigiom ganiatáu i gyplau un rhyw drosi eu partneriaeth sifil i briodas, ond nid i orfodi unrhyw un i wneud hynny. Byddai'r gallu i drosi partneriaeth sifil i briodas hefyd yn bwysig i gyplau mewn partneriaeth sifil ble mae un unigolyn yn ceisio newid ei ryw yn gyfreithiol trwy wneud cais am dystysgrif cydnabod rhywedd.

6.2 Pan lansiwyd yr ymgynghoriad, roeddem yn rhagweld y byddai'r broses drosi yn gweithio fel a ganlyn:

- byddai'r cwpl yn gallu ymgeisio i'r awdurdod perthnasol, a thalu ffi, ar sail adfer costau;
- os yw'r cwpl yn dymuno cael seremoni sifil i nodi creu eu priodas, yna gellid caniatáu hyn a chodi ffi atodol ar sail adfer y gost;
- ni fyddem yn disgwyl bod yna gyfyngiad amser ar y gallu i drosi partneriaeth sifil yn briodas; a
- ni fyddai'r trosiad yn cael ei ystyried i fod yn ddiwedd cyfreithiol un berthynas a dechrau un arall.

6.3 Gofynnem 3 cwestiwn ynglŷn â'r broses o drosi partneriaethau sifil:

Holodd cwestiwn 9, "Os ydych mewn partneriaeth sifil a hoffech fanteisio ar y polisi hwn i drosi eich partneriaeth sifil i briodas?"

Holodd cwestiwn 10 "A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai fod yna gyfyngiad amser ar y gallu i drosi partneriaeth sifil i briodas?"

Holodd cwestiwn 11 "A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylid cael dewis i gael seremoni sifil ar drosi partneriaeth sifil i briodas?"

Crynodeb o ymatebion

6.4 Mae'r ymateb o gwestiwn 9 yn darparu tystiolaeth ar y nifer o drosiadau tebygol a bydd yn cael ei ystyried yn rhan o'r asesiad effaith a fydd yn cael ei gyhoeddi pan gyflwynir deddfwriaeth i'r Senedd.

6.5 Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr a fynegodd farn ar y cyfyngiad amser i drosi partneriaeth sifil – er enghraifft, byddai gan gwpl 6 mis i drosi, ac wedi'r cyfnod hwn ni fyddent yn gallu gwneud hynny – yn cytuno gyda chynnig y Llywodraeth na ddylid gosod cyfyngiad amser. Teimlai'r Consortiwm pobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol “na ymddengys fod yna unrhyw reswm dilys dros osod cyfyngiad amser ar y gallu i drosi”, barn a rannwyd gan y Panel Cenedlaethol dros Gofrestru.

Holodd cwestiwn 11 “A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylid cael dewis i gael seremoni sifil ar drosi partneriaeth sifil i briodas?”

6.6 Cytunodd y mwyafrif o'r rhai a ymatebodd i gwestiwn 11 y dylai cyplau allu cael seremoni os oeddynt yn dymuno. Roedd yr ymatebwyr hyn yn cynnwys sefydliadau, megis Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr, a ddywedodd:

“Er y bydd nifer o gyplau wedi cael rhyw fath o seremoni gyhoeddus i ddathlu eu partneriaeth sifil, ac efallai na fyddant yn dymuno cael seremoni bellach i nodi'r trosiad, mae'n bosibl y bydd eraill eisiau dathlu'r trosiad a dylent gael cyfle i wneud hynny”.

6.7 Roedd cefnogaeth i'r farn y dylai fod yn seremoni heb unrhyw arwyddocâd cyfreithiol, gan gynnwys gan y Panel Cenedlaethol dros Gofrestru, a nododd y dylai fod yn “debyg i'r hyn sydd eisoes ar gael i adnewyddu addunedau”. Roedd rhai sefydliadau crefyddol, yn cynnwys yr Eglwysi Undebol a Rhydd, yn gofyn i allu cynnal seremonïau o'r fath ar eiddo crefyddol, ble mae'r sefydliad crefyddol yn fodlon eu cynnal.

Ymateb y Llywodraeth

6.8 Mae'r Llywodraeth yn dal i fod yn ymroddedig i ganiatáu i gyplau drosi eu partneriaeth sifil i briodas, os ydynt yn dymuno gwneud hynny, a sicrhau nad yw'r rhai nad ydynt yn dymuno gwneud hynny yn dioddef unrhyw nam cyfreithiol.

6.9 Bydd rhagor o fanylion o'r broses drosi yn cael eu hamlinellu yn hwyrach, ond rhagwelir y bydd y broses yn gweithredu fel yr amlinellwyd yn y ddogfen ymgynghori gychwynnol. Golyga hyn mai dim ond partneriaethau sifil a ffurfiwyd yng Nghymru a Lloegr y gellir eu trosi yng Nghymru a Lloegr. Mae hyn oherwydd natur ddatganoledig cyfraith priodas sy'n golygu mai dim ond o fewn yr awdurdodaeth ble ffurfiwyd partneriaeth sifil y bydd trosiant yn bosibl. Felly, ni fydd partneriaethau sifil a lunnir yn yr Alban a Gogledd Iwerddon yn gallu cael eu trosi yng Nghymru a Lloegr.

6.10 Rydym yn ymchwilio a fydd yn bosibl trosi partneriaethau sifil a gofrestrwyd mewn consyliaethau'r Deyrnas Unedig, neu ganolfannau'r Lluoedd Arfog, ble dychwelwyd y dystysgrif partneriaeth sifil i Gymru a Lloegr. Bydd angen i unrhyw drefniadau a wnawn i drosi partneriaethau sifil o'r fath adlewyrchu'r angen ystyried y llus o bryderon a buddiannau'r Llywodraeth.

6.11 Fe godir ffi am drosi partneriaeth sifil. Amcangyfrifwn y bydd hyn tua £100, sydd ar sail adfer y gost. Bydd y gost yr un faint i gyplau sydd eisiau trosi eu partneriaeth sifil i briodas, ac i'r rhai sydd eisiau gwneud hynny er mwyn cael tystysgrif cydnabod rhywedd llawn. Mae'r gost bresennol o briodi trwy seremoni sifil yn isafswm o £119.00 (mae hyn yn cynnwys rhoi hysbysiad, presenoldeb y cofrestrydd, a thystysgrif briodas). Mae'r gost o drosi yn gymharol felly, gan adlewyrchu'r prosesau sy'n debygol o fod yn angenrheidiol i nodi'r cofrestrriad partneriaeth sifil presennol, i atal twyll hunaniaeth ac i gyhoeddi tystysgrif briodas newydd.

6.12 Fel y cynigiwyd, ni fyddwn yn gosod cyfyngiad amser ar drosi partneriaethau sifil. Bydd hyn yn ein galluogi i gyflawni ein hamcan o alluogi'r rhai sydd mewn partneriaeth sifil i barhau yn eu huniad os ydynt yn newid eu rhywedd yn gyfreithiol.

6.13 Byddwn yn galluogi cyplau i gael seremoni ar drosi os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Ni fyddai'r seremoni yn cael unrhyw effaith gyfreithiol a byddai'n debyg i seremonïau presennol yn caniatáu i gyplau adnewyddu eu haddunedau (ac felly yn golygu cost ar wahân). Felly byddai cwpl yn gallu cael seremoni o'r fath ar eiddo crefyddol, os cytunir ar hyn gyda sefydliad crefyddol ac unrhyw gynrychiolwyr o'r sefydliad hwnnw a fyddai'n cymryd rhan yn y seremoni.

6.14 Nid ydym yn cynnig caniatáu i bobl drosi o briodas i bartneriaeth sifil (yn hytrach nag o bartneriaeth sifil i briodas) gan nad oes cyfiawnhad na gofyniad i gyflwyno proses o'r fath.

Partneriaethau sifil i gyplau rhyw arall

7.1 Ar hyn o bryd nid yw'n gyfreithiol bosibl i ddau o bobl o'r rhyw arall ymroi i bartneriaeth sifil gan mai dim ond i gyplau un rhyw mae partneriaethau sifil ar gael.

Cynigion ymgynghori

7.2 Roedd y Llywodraeth yn glir nad oedd yn bwriadu caniatáu i gyplau rhyw arall gael partneriaeth sifil gan nad oeddem yn glir o'r angen am bartneriaethau sifil i gyplau rhyw arall a heb weld unrhyw dystiolaeth fod cyplau rhyw arall yn dioddef unrhyw nam o ganlyniad i beidio gallu cael partneriaeth sifil.

Fodd bynnag, deallom fod yn amrywiaeth barn ar y mater hwn, ac felly yng nghwestiwn 8 yr ymgynghoriad fe ofynnem “Nid yw'r Llywodraeth yn ystyried agor partneriaethau sifil i gyplau rhyw arall. A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno gyda'r cynnig hwn?”

Crynodeb o ymatebion

7.3 Mae'n amlwg fod nifer o ymatebwyr yn teimlo y dylai partneriaethau sifil a phriodas fod ar gael i bob cwpl, er mwyn darparu cydraddoldeb. O'r rhai a ymatebodd i gwestiwn 8, roedd y mwyafrif yn anghytuno gyda'n cynnig ac yn teimlo y dylai partneriaethau sifil fod ar gael i gyplau rhyw arall.

7.4 Dynododd nifer o sefydliadau, yn cynnwys y Fforwm Hindŵaidd, nad oeddynt yn credu y dylai partneriaethau sifil fod ar gael i gyplau rhyw arall. Teimlai Cyngor Rabinaidd Manceinion y byddai caniatáu i fwy o bobl ymroi i berthynas gyfreithiol arall nad yw'n briodas yn gwanhau priodas ymhellach. Datganodd Cynhadledd Esgobion Pabyddol Cymru a Lloegr “nad yw'n rhoi cydnabyddiaeth i unrhyw bartneriaethau nac uniadau cyfreithlon eraill fel cyfatebiad moesol na chyfreithiol i briodas. Mae'r eglwys yn gwrthwynebu... ymestyn partneriaethau sifil i gyplau rhyw arall all briodi”.

7.5 Mynegodd rhai ymatebion, yn cynnwys y rhai o Eglwys Lloegr, bryder na fyddai caniatáu i gyplau un rhyw briodi, heb ganiatáu i gyplau rhyw arall gael cofrestru partneriaeth sifil, yn gynaliadwy yn gyfreithiol.

7.6 Nododd rhai ymatebwyr eu bod yn teimlo y dylai partneriaethau sifil fod ar gael i gyplau o'r rhyw arall i alluogi pob cwpl i gael dewis o uniad. Teimlai'r Consortiwm bobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol y byddai peidio caniatáu i gyplau rhyw arall gael partneriaeth sifil

“yn parhau i effeithio'n andwylol ar gymunedau Traws a fydd heb ddewis heblaw i drosi un endid cyfreithiol i un arall. Bydd creu cydraddoldeb lawn trwy gael partneriaethau sifil a phriodasau i bawb, yn lleihau'r amhariad emosiynol a chyfreithiol yn ddramatig gan hefyd ddarparu'r datrysiad mwyaf cost effeithlon i'r system gyffredinol”.

7.7 Cyfeiriodd rhai ymatebion at benderfyniad cwpl i beidio priodi, ond eu dymuniad i gael yr hawliau ac amddiffyniadau o fod mewn perthynas ymroddedig ers amser maith. Mae'r mater o hawliau cydfyw i'r rhai nad ydynt eisiau priodi yn ystyriaeth arall ac felly nid yw wedi ei ystyried yn rhan o'r ymgynghoriad hwn.

Ymateb y Llywodraeth

7.8 Pan gyflwynwyd partneriaethau sifil yn 2005, fe'i crëwyd i ganiatáu mynediad cyfatebol i hawliau, cyfrifoldebau ac amddiffyniad i gyplau o'r un rhyw â'r rhai a geir trwy briodas. Nid oedd yn fwriad i ddarparu, nac wedi ei gynllunio i fod, yn ddewis amgen i briodas. Felly, ni chredwn y dylid eu gweld nawr fel dewis amgen i briodas i gyplau rhyw arall.

7.9 Ar hyn o bryd mae gan gyplau rhyw arall fynediad at briodas, naill ai trwy seremoni sifil neu grefyddol, sy'n cael ei gydnabod yn gyfreithiol a chymdeithasol. Deallwn nad yw pob cwpl rhyw arall eisiau priodi, ond maent yn rhydd i wneud y penderfyniad hwnnw a gallant ddewis gwneud hynny os dymunant. Trwy'r ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad hwn, nid yw'n glir pa nam fyddai cyplau rhyw arall yn ddioddef trwy beidio cael mynediad at bartneriaethau sifil.

7.10 Nid oedd yn nod i'r ymgynghoriad hwn fod yn broses ehangach o ddiwygio deddfwriaeth priodas a phartneriaeth sifil, ac felly ni chredwn ei bod yn angenrheidiol i agor partneriaethau sifil i gyplau rhyw arall er mwyn galluogi cyplau o'r un rhyw i briodi.

Cydnabod rhywedd

8.1 Pan fydd rhywun eisiau newid eu rhywedd yn gyfreithiol mae'n ofynnol iddynt gael Tystysgrif Cydnabod Rhywedd a gyhoeddir gan y Panel Cydnabod Rhywedd.

8.2 Ar hyn o bryd, ni all rhywun sydd eisoes mewn priodas neu bartneriaeth sifil cael Tystysgrif lawn. Mae hyn am nad yw'r Deyrnas Unedig yn caniatáu i gyplau un rhyw fod yn briod, nac i gyplau rhyw arall fod mewn partneriaeth sifil. Er mwyn i un partner gael Tystysgrif lawn, rhaid i'r cwpl derfynu'r briodas neu bartneriaeth sifil.

8.3 Gall hyn achosi cryn dipyn o straen a phryder i'r cwpl a'u teuluoedd. Gallai hefyd amharu ar eu cofnodion cyfraniadau ar gyfer pensiynau a budd-daliadau. Credwn os yw cwpl eisiau aros yn eu huniad wrth i un partner gael tystysgrif, yna ni ddylai'r Llywodraeth eu hatal.

Cynigion ymgynghori

8.4 Byddai diddymu'r rhwystr sy'n atal cyplau o'r un rhyw rhag priodi yn galluogi'r rhai sydd mewn priodas, pan fydd un o'r cwpl yn newid rhywedd yn gyfreithiol, i ddal i fod yn briod, pe byddant yn dymuno gwneud hynny. Er enghraifft, pe byddai cwpl yn ddyn a menyw yn gyfreithiol ar adeg eu priodas ac yna bod y fenyw yn ceisio newid ei rhywedd yn gyfreithiol i wrywaidd, ar hyn o bryd byddai'n rhaid i'r cwpl derfynu eu priodas hyd yn oed os nad oeddynt eisiau gwneud. Dan ein cynigion, byddai hyn yn newid ac yn golygu y gallai'r fenyw newid ei rhywedd yn gyfreithiol ac yna gallai'r cwpl barhau i fod yn briod, pe byddent eisiau.

8.5 Byddai cwpl mewn partneriaeth sifil yn gallu gwneud trosi eu partneriaeth sifil i briodas pe byddent eisiau, a fyddai'n galluogi un o'r cwpl i wneud cais i newid rhywedd yn gyfreithiol. Ni fyddai'n bosibl iddynt aros yn eu partneriaeth sifil, gan y byddai hyn yn bartneriaeth rhyw arall na fyddai'n gyfreithiol bosibl.

Holodd cwestiwn 12 "Os ydych yn berson trawsrywiol priod, a hoffech fanteisio ar y polisi hwn a pharhau i fod yn eich priodas tra'n cael tystysgrif cydnabod rhyw llawn?"

Gofynnodd cwestiwn 13 "Os ydych yn gymar i berson trawsrywiol, a hoffech fanteisio ar y polisi hwn a pharhau i fod yn eich priodas tra bod eich cymar yn cael tystysgrif cydnabod rhyw llawn?"

Crynodeb o ymatebion

8.6 O'r 3% o ymatebwyr a nododd fod cwestiwn 12 yn berthnasol iddynt, dywedodd y mwyafrif yr hoffent gymryd mantais o'r polisi hwn.

8.7 Nododd y Bartneriaeth pobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol "i nifer o bobl traws, bydd priodas sifil un rhyw yn rhoi terfyn ar arfer trallodus ac anghyfleus o orfodi diddymu priodas bresennol er mwyn cael Tystysgrif". Awgrymodd y Consortiwm pobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol eu bod yn credu "y dylai pobl traws sy'n cael eu gorfodi i derfynu eu priodas er mwyn cael Tystysgrif Cydnabod Rhywedd allu cael ailsefydlu eu hawliau budd-daliadau o'u priodas wreiddiol ac ad-dalu unrhyw gostau".

8.8 O'r rhai a ddywedodd fod y cwestiwn 13 hwn yn berthnasol iddynt, dywedodd y mwyafrif y byddent yn manteisio ar y polisi hwn.

8.9 Ble mae cwpl yn dymuno aros yn eu priodas, a bod y briodas wedi ei chofrestru yng Nghymru a Lloegr, ond fod un parti wedi newid rhywedd yn gyfreithiol, efallai yr hoffent gael tystysgrif briodas newydd sy'n egluro hyn. Cododd GIRES (sefydliad sy'n cynrychioli pobl drawsrywiol) ynghyd ag ymatebwyr eraill ymholiad ynglŷn â'r dyddiad ar dystysgrifau priodas pan oedd hyn yn digwydd ac a fyddai'n nodi dyddiad eu seremoni briodas wreiddiol.

"Byddai rhoi dyddiad cyn i'r ddeddfwriaeth priodas sifil ddod i rym un 'datgelu'r cwpl mewn effaith. Barn GIRES yw mai'r cwpl dan sylw ddylai benderfynu ar y dyddiad fel bod unrhyw 'ddatgeliad' o'u dewis nhw".

8.10 Teimlai rhai sefydliadau, megis Plaid Cymru, y dylid ystyried "a ellid ailsefydlu cyfraniadau neu hawliadau budd-daliadau ôl-weithredol o briodas wreiddiol y cwpl ar gost finimol".

8.11 Mae unrhyw farn a fynegwyd ynglŷn â phroses y Panel Cydnabod Rhywedd ac ailgyhoeddi tystysgrifau (ar wahân i dystysgrifau priodas) y tu allan i gwmpas yr ymgyngoriad hwn.

Ymateb y Llywodraeth

8.12 Mae'r Llywodraeth yn parhau i fod yn ymroddedig i alluogi rhywun i newid rhywedd cyfreithiol tra'n parhau i fod yn briod. Byddai gan y rhai sydd mewn partneriaeth sifil wedi ei chofrestru yng Nghymru neu Lloegr yn cael y dewis o drosi eu partneriaeth sifil heb orfod terfynu'r uniad hwnnw yn gyfreithiol a byddai unrhyw hawliau a gronwyd o fewn y bartneriaeth sifil yn parhau.

8.13 Rydym hefyd yn cynnal y safbwynt a amlinellwyd yn yr ymgyngoriad na fydd y Panel angen gwneud dyfarniad ar a ffurfiwyd y briodas trwy seremoni grefyddol neu sifil. Credwn na fyddai'n briodol i'r Panel ddyfarnu ar hyn o beth.

8.14 Rhaid ystyried hawliau'r cymar pan fydd unrhyw newid yn digwydd i statws priodas ac felly rydym yn cynnig yn rhan o'r broses o ymgeisio i'r Panel Cydnabod Rhywedd y byddai'n rhaid i'r cymar lofnodi datganiad statudol i ddatgan dymuniad i aros yn y briodas unwaith y bydd y cymar wedi newid rhywedd yn gyfreithiol. Bydd y weithdrefn Tystysgrif Cydnabod Rhywedd dros dro bresennol yn dal i fodoli p'un a yw'r naill gymar neu'r llall yn dynodi nad yw eisiau aros yn y briodas, a bydd hyn yn caniatáu iddynt derfynu'r briodas, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd.

8.15 Gwyddom fod rhai cyplau wedi gorfod terfynu priodasau er mwyn i un cymar gael Tystysgrif, ac y gallai fod wedi cael effaith ar hawliau i fudd-daliadau. Nid oes unrhyw gynlluniau i ad-dalu cyplau am unrhyw hawliau budd-daliadau maent yn credu y gallent fod wedi eu hawlio neu i alluogi cyplau i gael adsefydlu eu statws perthynas flaenorol. Rydym yn cynnig trin cyplau o'r un rhyw mewn priodas fel partneriaid sifil i ddibenion pensiynau'r wladwriaeth a galwedigaethol. Fodd bynnag, bwriadwn wneud eithriad i'r rheol gyffredinol hon i sicrhau nad yw pensiwn y wladwriaeth i wraig briod yn seiliedig ar gyfraniadau Yswiriant Gwladol ei gŵr wedi eu heffeithio os yw ei chymar yn sicrhau Tystysgrif Cydnabod rhywedd wedi priodi.

8.16 Byddwn yn dal i weithio'n agos gyda'r Panel a sefydliadau cynrychiadol pobl drawsrywiol a'u priod i sicrhau fod y system yn gweithio'n effeithiol, gan ychwanegu cyn lleied o brosesau atodol â phosibl. Byddai hyn yn cynnwys materion megis y dyddiad fyddai'n ymddangos ar dystysgrifau priodas i gyplau, ble cafodd un parti Dystysgrif Rhywedd: er enghraifft, dyddiad y seremoni briodas wreiddiol. Rydym yn dal i fod yn ystyriol o'r dymuniad i beidio datgelu hanes trawsrywiol unigolyn yn anfwriadol. Felly byddwn yn dal i weithio gyda sefydliadau cynrychiadol wrth i ni derfynu'r polisi hwn i sicrhau ei fod yn gweithio'n ymarferol i bob parti.

8.17 Mae priodas yn fater datganoledig, felly ni fydd cyplau sy'n ymroi i briodas yng Ngogledd Iwerddon yn gallu dal i fod yn briod pan fydd un cymar yn ceisio sicrhau Tystysgrif Rhywedd. Delir â phriodasau yr ymroddir iddynt yn yr Alban gan Lywodraeth yr Alban a fydd yn sefydlu eu gweithdrefnau eu hunain.

Materion ehangach

9.1 Mae yna nifer o faterion ehangach i'w hystyried wrth alluogi cyplau o'r un rhyw i briodi.

Cafodd ymatebwyr gyfle i roi sylw ar y materion hyn yng nghwestiwn 14 yr ymgynghoriad ("A oes gennych unrhyw sylwadau ar y tybiaethau neu faterion a amlinellwyd yn y bennod hon ar effeithiau ôl-ddilynol?")

Prosesau gweinyddol ar gyfer priodas a phartneriaeth sifil

9.2 Ar y cyfan, bydd y prosesau gweinyddol yn dal i fod yr un peth ar gyfer priodasau a phartneriaethau sifil. Bydd yr addunedau a lefarir yn rhan o'r seremoni briodas yn gallu parhau fel y maent, gan gyfeirio at gyplau fel 'gŵr' a 'gŵr', neu 'wraig' a 'gwraig' i ddibenion cyfreithiol. Ni fydd gofynion a chyfyngiadau o ran oed, cydsyniad rhieni a chysylltiadau teuluol yn newid. Er enghraifft, ni fydd neb yn gallu priodi nac ymroi i bartneriaeth sifil gyda brawd neu chwaer, na gyda rhywun dan yr oed cydsynio.

9.3 Ar hyn o bryd, mae'n bosibl i ddinasyddion y Deyrnas Unedig briodi, neu ymroi i bartneriaeth sifil, mewn Consyliaethau Prydeinig. Dim ond gyda chytundeb y wlad letya y gall hyn ddigwydd, a ble na fyddai'n bosibl i'r cwpl ymroi i briodas neu uniad sifil dan gyfreithiau'r wlad honno. Byddwn yn ymestyn hyn i gynnwys priodasau cyplau o'r un rhyw, er ei bod yn rhy fuan i ddweud ym mha wledydd y bydd ar gael. Efallai y bydd hefyd yn bosibl i drosi partneriaethau sifil sydd eisoes wedi digwydd mewn Consyliaethau Prydeinig a bydd manylion y broses i gyflawni hyn yn cael eu sefydlu yn hwyrach.

Datganoli

9.4 Mae priodas wedi datganoli yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, sy'n golygu y gall Llywodraeth yr Alban a Gweithgor Gogledd Iwerddon benderfynu ar sut i lunio cyfraith priodas a phartneriaeth sifil o fewn eu hawdurdodaethau. Mae'r cynigion hyn yn cwmpasu Cymru a Lloegr yn unig.

9.5 Nododd rhai o'r ymatebwyr faterion yn ymwneud â datganoli. Ble ceir unrhyw ystyriaeth o feysydd datganoledig (megis trosi partneriaethau sifil), adlewyrchir hyn dan yr adran berthnasol o'r ymateb hwn.

9.6 Ar 25 Gorffennaf 2012, cyhoeddodd Llywodraeth yr Alban ei gynlluniau i alluogi cyplau o'r un rhyw i briodi. Er bod priodas yn ddatganoledig, mae yna nifer o feysydd eraill o bolisi'r Llywodraeth sydd wedi eu cadw (megis cydraddoldeb a phensiynau). Felly mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth yr Alban i sicrhau fod y ddwy system yn gydnaws ac y gwneir unrhyw addasiadau angenrheidiol i ddeddfwriaeth y Deyrnas Unedig trwy'r Senedd yn San Steffan. Byddwn yn sicrhau fod priodas cyplau o'r un rhyw yn cael eu cydnabod ar draws y ffin rhwng Cymru, Lloegr a'r Alban.

9.7 Nid oes gan Ogledd Iwerddon unrhyw gynlluniau i ymgynghori ar na chyflwyno priodas i gyplau un rhyw ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae yna feysydd pwysig sy'n parhau i fod yn faterion gwarchoddedig ar gyfer Llywodraeth y Deyrnas Unedig ac felly rydym yn gweithio'n agos gyda Gweithgor Gogledd Iwerddon i sicrhau na chyfaddawdir ar eu sefyllfa. Gweithgor Gogledd Iwerddon sydd i benderfynu sut mae'n cydnabod priodasau a gyflawnir yng Nghymru neu Loegr ar gyfer cyplau o'r un rhyw, ond credwn y byddant yn cael eu trin fel partneriaeth sifil.

Godineb ac anghyflawniad

9.8 Mae un o'r gwahaniaethau rhwng priodasau a phartneriaethau sifil yn ymwneud â diddymiad, ysgariad a dirymiad. Ar hyn o bryd, diffinnir y cysyniadau o anghyflawniad¹⁰ a godineb mewn cyfraith achos ac mae'n berthnasol i gyfraith priodas yn unig, ac nid partneriaethau sifil. Roeddem wedi cynnig caniatáu i gyfraith achos ddatblygu er mwyn creu diffiniad 'newydd' o anghyflawniad a godineb i gyplau un rhyw.

9.9 Fodd bynnag, dangosodd yr ymatebion a dderbyniwyd gan Gynhadledd Esgobion Pabyddol Cymru a Lloegr a Chymdeithas y Bar ar Gyfraith Deuluol, ymysg eraill, na fyddai'n dderbyniol i adael ansicrwydd i'r fath yn y gyfraith. Mynegwyd pryder gan rai, y byddai'r cysyniad o anghyflawniad yn cael ei ddileu'n llwyr o gyfraith briodasol. Er nad yw'n ofyniad cyfreithiol ar hyn o bryd i gyflawni priodas cyn iddi ddod yn gyfreithiol¹¹, rydym yn glir nad oes bwriad o unrhyw fath i ddileu cyfeiriadau at anghyflawniad i ddeddfwriaeth.

9.10 Felly, parthed anghyflawniad, rydym yn cynnig creu eithriad ar gyfer cyplau o'r un rhyw mewn priodas, sy'n golygu na fyddant yn gallu datgan anghyflawniad fel sail dros ddirymu eu priodas. Ar hyn o bryd ni all cyplau o'r un rhyw ddirymu eu partneriaeth sifil ar sail anghyflawniad. Bydd cyplau rhyw arall yn parhau i allu dirymu eu priodas ar sail anghyflawniad. Trwy gynnal y sefyllfa hon, nid ydym yn addasu'r sefyllfa gyfreithion yn ddiangen.

9.11 Rydym yn cynnig cynnal y sefyllfa bresennol parthed godineb mewn priodas. Golyga hyn y bydd unrhyw un, yn cynnwys cyplau un rhyw, yn gallu nodi godineb i derfynu eu priodas os arddangosir ymddygiadau a ddiffinnir mewn cyfraith achos bresennol¹². Yn ymarferol, byddai hyn yn golygu i gwpl o'r un rhyw, pe byddai un partner yn cael cyfathrach rywiol (o fewn ystyr y gyfraith i'r dibenion hyn) gyda rhywun o'r rhyw arall, yna gallai'r partner nodi godineb fel sail dros ysgariad. Pe byddai'r ymddygiad yn methu bodloni'r diffiniad cyfreithiol presennol o odineb, byddai'n dal i fod yn bosibl nodi hyn fel

10 Diffinnir cyflawniad yng nghyfraith gwlad Lloegr. Mae cyflawniad yn gofyn am gyfathrach rywiol 'cyffredin a chyflawn. Mae treiddiad am gyfnod byr heb ollyngiad tu fewn neu du allan i'r wraig wedi ei gynnal i fod yn gyfathrach anghyflawn ac, felly, nid yw'n gyflawniad o briodas (gweler *W* (neu fel arall *K*) -v- *W* [1967] 3 All ER 178n).

11 Gall cwpl gytuno i beidio cyflawni eu huniad. Mae'r sail dros nodi anghyflawniad hefyd yn cynnwys beth ellid ei ddisgwyl yn rhesymol o'r berthynas honno.

12 Ar hyn o bryd diffinnir godineb fel a ganlyn: rhaid bod o leiaf treiddiad rhannol o'r fenyw gan y gwryw er mwyn profi'r weithred o odineb. Ni ddylid drysu ceisio cyflawni godineb gyda'r weithred ei hun, ac os nad oes treiddiad o'r fath, nid yw gyweithred lai o foddhad rhywiol yn cyfateb i odineb (gweler *Dennis v Dennis* [1955] 2 All ER 51 2WLR 817).

ymddygiad afresymol, fel sy'n wir gyda phartneriaethau sifil. Fel hyn credwn na fydd angen newid y safbwynt cyfreithiol presennol ar ystyr godineb. Bydd yn dal i fod yn wir na fydd cwpl o'r un rhyw mewn partneriaeth sifil yn gallu nodi godineb i derfynu eu partneriaeth sifil¹³.

Rhyngwladol

9.12 Mae priodasau tramor rhwng cyplau rhyw arall yn cael eu trin fel priodasau yng Nghymru a Lloegr (oni bai fod llys yn pennu nad ydynt yn bodloni meini prawf penodol). Fodd bynnag, ar gyfer cyplau o'r un rhyw, mae angen darpariaeth i sicrhau fod perthnasau cyfreithiol a ffurfir mewn gwlad dramor yn cael eu trin fel partneriaethau sifil o fewn y Deyrnas Unedig. AR hyn o bryd, mae pob undod o'r un rhyw a ffurfir dramor (p'un a ydynt yn cael eu galw yn briodas neu fel arall) yn cael eu trin fel partneriaeth sifil yn y Deyrnas Unedig (cyn belled â'u bod yn bodloni meini prawf statudol). Amlinella Atodlen 20 (ac adran 214) y Ddeddf Partneriaeth Sifil 2004 yr uniadau o'r un rhyw a lunnir dramor sy'n cael eu trin fel partneriaethau sifil yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Llywodraeth wedi diweddarau Atodlen 20 yn ddiweddar.

9.13 Rydym yn cynnig cydnabod priodasau tramor o gyplau o'r un rhyw fel priodasau yng Nghymru a Lloegr (oni bai fod llys yn pennu nad ydynt yn bodloni meini prawf penodol), yn unol â phriodasau rhyw arall; ac i gydnabod uniadau sifil o'r un rhyw fel partneriaethau sifil yn y Deyrnas Unedig, fel sy'n digwydd nawr. Yn ein triniaeth o uniadau o'r un rhyw, ar hyn o bryd nid ydym yn gwahaniaethu rhwng y rhai yr ymroddir iddynt trwy seremoni grefyddol na seremoni sifil a bydd hyn yn parhau i fod yn wir.

9.14 Er nad oes unrhyw orfodaeth ar wledydd eraill i drin uniadau o'r un rhyw (naill ai'n briodas neu'n bartneriaethau sifil) fel perthynas gyfreithiol, mae'r Llywodraeth wedi a bydd yn parhau i weithio gyda gwledydd eraill, ble fo'n briodol, i sicrhau y gall cyplau o'r un rhyw gael cydnabyddiaeth i briodas neu bartneriaeth sifil a luniwyd yn y Deyrnas Unedig y tu allan i'r Deyrnas Unedig.

9.15 Mae'r Llywodraeth yn cydnabod fod cyplau o'r un rhyw sy'n ymroi i briodas yng Nghymru a Lloegr ond yn dal i breswyllo neu gartrefu'n achlysurol mewn gwlad arall yn gallu terfynu eu priodas yn y wlad honno os nad yw'n cydnabod eu huniad yn gyfreithiol. Felly, mae'r Llywodraeth yn cynnig darparu "awdurdodaeth pan fetho popeth arall" er mwyn i gyplau o'r un rhyw nad ydynt yn gallu ysgaru ble maent yn preswyllo yn gallu terfynu eu priodas yng Nghymru a Lloegr.

Pensiynau

9.16 Codwyd hawliau i bensiynau gan nifer o sefydliadau yn eu hymatebion i'r ymgynghoriad, yn cynnwys Cymdeithas Cyfreithwyr Pensiynau a nifer o sefydliadau sy'n cynrychioli pobl drawsrywiol.

9.17 Mae'r Llywodraeth yn gweithio tuag at gydraddoldeb llawn ar draws cynlluniau pensiwn y Wladwriaeth i ddynion a menywod, beth bynnag yw eu cyfeiriadedd rhywiol. Fodd bynnag, mae gan ddynion priod, gwŷr gweddw a phartneriaid sifil gwrywaidd a benywaidd fynediad ychydig yn fwy cyfyngedig i pensiwn y wladwriaeth yn seiliedig ar gofnod Yswiriant Gwladol eu cymar neu bartner na menywod priod a gweddwon¹⁴. Mae'r gwahaniaethau hyn yn adlewyrchu gwahaniaethau hanesyddol

13 Fodd bynnag, gallai cyplau ddefnyddio'r un dystiolaeth i brofi ymddygiad afresymol i derfynu eu partneriaeth sifil.

14 Gall menyw briod gyda phensiwn sylfaenol o lai na £64.40 fod yn gymwys ei hun am pensiwn sylfaenol o hyd at y swm hwnnw yn seiliedig ar gyfraniadau Yswiriant Gwladol ei gŵr, ni waeth ble y'i ganed ef. Ond dim ond os ganed y wraig neu bartner wedi 5 Ebrill 1950 y gall gŵr priod neu bartner sifil fod yn gymwys. Gallai menyw sy'n weddw dros oed pensiwn y mae ei gŵr yn marw dan oed pensiwn etifeddu rhan o'i pensiwn y wladwriaeth atodol, ond dan yr un amgylchiadau dim ond os ydynt yn cyrraedd oed pensiwn wedi 5 Ebrill 2010 y gall gŵr gweddw neu bartner sifil sy'n goroesi etifeddu pensiwn y wladwriaeth atodol.

ym mhatrymau gwaith a chyfraniadau dynion a menywod. Pan gyflwynwyd partneriaethau sifil, ni ailadroddwyd y gwahaniaethau, oherwydd byddai gwneud hynny wedi creu gwahaniaeth newydd mewn triniaeth yn seiliedig ar ryw rhwng partneriaid sifil gwrywaidd a benywaidd.

9.18 Bwriad y Llywodraeth, o ran pensiynau'r Wladwriaeth, yw trin cyplau o'r un rhyw yn yr un modd â phartneriaid sifil. Y rhesymau dros yr ymagwedd hon yw:

- mae gwahaniaethau yn y driniaeth o ddynion a menywod yn etifeddiaeth o'r gorffennol ac ni fyddant yn bodoli cyn bo hir.
- n chredwn ei bod yn briodol i greu gwahaniaethau newydd mewn triniaeth rhwng dynion a menywod pan fydd y Llywodraeth yn ceisio cydraddoli triniaeth fel arall.
- bydd pensiynwyr ar incymau isel yn dal i fod â hawl i gredyd pensiwn, wrth gwrs, (a fydd yn cynnwys budd-dal tai yn y dyfodol) a chefnogaeth gyda'r dreth gyngor.

9.19 Mae yna hefyd wahaniaeth mewn triniaeth mewn pensiynau galwedigaethol rhwng dynion a menywod, yn adlewyrchu etifeddiaeth o'r gorffennol. Bwriad y Llywodraeth, fel gyda phensiynau'r Wladwriaeth ac am resymau tebyg i'r rhai a amlinellir uchod, yw trin cyplau o'r un rhyw yn yr un modd â phartneriaid sifil. Ers cyflwyno partneriaethau sifil, bu'n ofynnol i gwmnïau sy'n cynnig budd-daliadau goroeswr i briod yn rhan o gynllun galwedigaethol budd diffiniedig ymestyn buddion goroeswr i bartneriaid sifil. Mae'r Llywodraeth yn bwriadu alinio'r rheolau i gyplau priod o'r un rhyw gyda'r rhai ar gyfer partneriaethau sifil, i'r dibenion hyn. Y rhesymau dros yr ymagwedd hon yw:

- Byddai'r ymagwedd amgen, i gydraddoli triniaeth o bob cwpl o'r un rhyw, mewn partneriaeth sifil neu'n briod, gyda chyplau rhyw arall yn golygu cost ôl-weithredol na ragwelwyd i gynlluniau mewn hinsawdd economaidd heriol pan mae cynlluniau eisoes dan bwysau arwyddocaol.
- Yn ymarferol, mae nifer o gynlluniau (amcangyfrifwn dau draean) yn dewis talu yn union yr un buddion goroeswr i briod, partneriaid sifil, partneriaid dibriod a chyplau o'r un rhyw dibriod ar sail wirfoddol.

9.20 Mae gofynion pensiynau'r wladwriaeth a phensiynau galwedigaethol yn faterion wedi eu neilltuo i Lywodraeth y Deyrnas Unedig, ac eithrio yng Ngogledd Iwerddon. Felly, bydd y cynlluniau a amlinellir isod yn cwmpasu Prydain Fawr, yn hytrach na dim ond Cymru a Lloegr.

9.21 Neilltuir polisi ar gynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig i Lywodraeth y Deyrnas Unedig. Bydd y cynlluniau hynny ble mae polisi wedi ei neilltuo yn trin cyplau o'r un rhyw fel partneriaid sifil. Mae hyn yn golygu, i'r rhan fwyaf o gynlluniau, y bydd buddion goroeswr i gyplau priod o'r un rhyw yn weithredol o 6 Ebrill 1988¹⁵.

9.22 Ar gyfer y cynlluniau gwasanaeth cyhoeddus ble pennir polisi gan y Gweinyddiaethau Datganoledig, y cyrff hynny sydd i benderfynu ar wneud penderfyniadau ar sut ddylid adlewyrchu cyflwyno priodas o'r un rhyw yn y cynlluniau hynny.

15 Dyma oedd y dyddiad pan wnaethpwyd hawliau goroeswyr yn gyfartal i weddwon a gwŷr gweddw.

Terminoleg

9.23 Mynegwyd pryderon y byddai'r termau 'gŵr' a 'gwraig' yn cael eu diddymu o ddefnydd o ganlyniad i ganiatáu i gyplau un rhyw briodi – nid yw hyn yn wir. I'r gwrthwyneb, bydd y cynigion hyn yn caniatáu i fwy o bobl ddefnyddio'r termau hyn. Bydd cyplau yn dal i allu galw ei gilydd beth bynnag y dymunant yn eu bywyd personol, ac mewn dogfennau cyfreithiol a swyddogol, bydd y termau gŵr a gwraig yn dal i gael eu defnyddio.

Rhyddid i lefaru

9.24 Gwyddom hefyd fod athrawiaeth sawl ffydd yn grediniol mai dim ond rhwng dyn a menyw y gellir cael priodas. Rydym yn glir na ddylai unrhyw un wynebu gweithredu cyfreithiol llwyddiannus am lefaru casineb oherwydd eu bod yn pregethu'r gred mai dim ond rhwng dyn a menyw y gellir cael priodas.

9.25 Bydd y ddeddfwriaeth bresennol ar lefaru casineb, p'un a yw hyn o fewn cyd-destun crefyddol neu beidio, yn dal i fod yr un peth â'i fod yn darparu amddiffyniadau digonol. Er ein bod yn cydnabod ac yn amddiffyn hawl pobl i fynegi'r farn y dylai priodas fod rhwng gŵr a gwraig yn unig, nid yw hyn yn golygu y caniateir nac y cefnogir llefaru casineb yn gyfreithiol.

Addysg

9.26 Cododd nifer o bobl ymholiadau ynglŷn â'r gofyniad i athrawon ddysgu y gallai priodas fod rhwng dau o bobl o'r un rhyw. Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr hyn yn erbyn y cynigion a chodwyd pwyntiau penodol parthed ysgolion ffydd.

9.27 Mae'n ofynnol i bob ysgol sicrhau na ddysgir unrhyw beth i ddisgyblion nad yw'n briodol i'w hoed, cefndir crefyddol neu ddiwylliannol. Ni fydd hyn yn newid a bydd disgyblion yn dal i dderbyn cyngor eang a chytbwys ar briodas.

9.28 Yn ogystal, bydd athrawon, yn arbennig mewn ysgol ffydd, yn gallu parhau i ddisgrifio eu cred fod priodas yn ddefod rhwng gŵr a gwraig, gan gydnabod a gweithredu o fewn y safbwynt deddfwriaethol newydd sy'n galluogi cyplau o'r un rhyw i briodi. Rhaid iddynt ddal i weithredu o fewn paramedrau presennol deddfwriaeth ar lefaru casineb a chyfraith gwahaniaethu.

9.29 Disgwylir i athrawon barchu hawliau eraill ac i barchu'r rhai gyda gwahanol gredoau. Dylent sicrhau na fynegir eu credoau personol mewn modd sy'n cymryd mantais o natur fregus disgyblion neu'n golygu gwahaniaethu yn eu herbyn. Fodd bynnag, ni yw hynny'n golygu fod angen i athrawon gytuno â barnau eraill neu gyda'r modd y mae pobl eraill yn arfer eu hawliau. Dylai fod yn fater i'r prifathro bennu beth ddylai athrawon dan ei rheolaeth fod yn dysgu a beth a ddisgwylir gan eu staff.

Rhianta

9.30 Edrychodd yr ymgynghoriad ar alluogi cyplau o'r un rhyw i briodi ac nid yw'r cynigion a geir ynddo yn addasu'r hawliau na chyfrifoldebau yn ymwneud â rhianta. Mae'r Llywodraeth yn cefnogi pob teulu yn cynnwys rhieni o'r un rhyw ac nid ydym yn derbyn fod plant yn dioddef canlyniadau gwaeth os ydynt yn cael eu magu gan rieni o'r un rhyw. Nododd Barnardos fod:

“Magu plant yn ymwneud â darparu diogelwch emosiynol a datblygu ymagwedd bositif i rianta trwy fod yn esiampl dda; annog cyfathrebu da; a herio camymddygiad. Mae'r rhain yn nodweddion y gellir eu canfod mewn cyplau, p'un a ydynt yn lesbiaid, hoyw, deurywiol, trawsrywiol neu syth”.

9.31 Codwyd y mater o rianta mewn ambell i ymateb – gyda'r mwyafrif o blaid y cynigion. Fodd bynnag, mynegwyd pryder, gan gynnwys gan y Gymdeithas i Ddiogelu Plant Heb eu Geni, fod:

“Priodas yn bodoli i ddiogelu hunaniaeth plant... Mae plant yn gwneud yn well o ran iechyd, hapusrwydd ac addysg os ydynt wedi eu magu gan eu rhieni priod, biolegol”.

9.32 Nid oes ychwaith unrhyw fwriad i ddi-ddymu'r termau mam a thad, na'u hamnewid â thermau megis 'Hynafiad A ac Hynafiad B' fel y codwyd gan rai sefydliadau.

Iechyd

9.33 Datganodd Coleg Brenhinol y Seiciatryddion fod “corff o ymchwil wedi sefydlu'r anfantais iechyd berthnasol sydd gan bobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol”, Nododd nifer o ymatebion, yn cynnwys Coleg Brenhinol y Seiciatryddion, y manteision corfforol a meddyliol o ganiatáu i gyplau un rhyw briodi. Ymysg y darnau eraill o dystiolaeth, maent yn dyfynnu ymchwil Hatsenbueler et al, (2011) a ddangosodd yn y 12 mis wedi cyflwyno cydraddoldeb priodas yn Massachusetts, cofnodwyd nifer sylweddol is o ymweliadau i gyfleusterau iechyd am resymau iechyd meddyliol neu gorfforol i ddynion hoyw a bod y costau iechyd wedi gostwng o ganlyniad.

Costau a buddiannau

9.34 Gofynnodd cwestiwn 16 am unrhyw wybodaeth ar gostau ac / neu fuddiannau posibl o ganiatáu i gyplau o'r un rhyw briodi. Ni dderbyniom unrhyw wybodaeth arwyddocaol sydd wedi newid yr asesiad o werth net presennol y polisi hwn a gyhoeddwyd yn yr asesiad effaith pan lansiwyd yr ymgynghoriad (£3.7miliwn). Yn unol â gofynion, byddwn yn cyhoeddi asesiad effaith wedi ei ddiweddarau pan fydd deddfwriaeth yn cael ei chyflwyno i'r Senedd.

Atodiad A – Deisebau

Derbyniwyd Gan	Rhagosodiad deiseb	Nifer o Lofnodion
All Saints Presbytery Bakewell	Uniad gwirfoddol am oes o un gŵr ac un wraig	27
Unigolyn	Mae ein gwlad yn un Gristnogol gan fwyaf, felly dylem ddilyn yr athrawiaeth honno	14
Unigolyn	Nid rôl y wladwriaeth yw ailddiffinio priodas	9
Unigolyn	Mae priodas yn uniad rhwng un gŵr; un wraig wedi ei ordeinio gan Dduw	69
Unigolyn	Dadleuon crefyddol fod arferion gwrywgydiol yn bechadurus	47
Unigolyn	Mae yn groes i urddas, statws a breintiau priodas heterorywiol	13
Unigolyn	Mae'r mwyafrif o bobl Prydain yn erbyn newid y diffiniad o briodas	24
Arweinwyr Eglwysig, Tunbridge Wells	Mae priodas yn uniad rhwng un gŵr; un wraig wedi ei ordeinio gan Dduw, bydd athrawon yn wynebu gwrthdaro mewn ysgolion, bydd rhieni yn cael eu labelu fel homoffobaidd am gynnal credoau crefyddol, drud a gwastraff o amser i'r senedd, yr unig beth a enillir yw gair: Mae partneriaethau sifil eisoes yr un peth â phriodas yn ôl y gyfraith, diffyg sylw i'r broses ddyledus o ymgynghori / annemocrataidd	20
Clymblaid dros Briodas	Yn cefnogi'r diffiniad cyfreithiol o briodas sef yr undeb gwirfoddol am oes o un gŵr ac un wraig	509,800
Concerned Christians – Belfast	Erydu rhyddidau, sefydliad a grëwyd gan Dduw i wŵr a gwraig, erydiad o werthoedd cymdeithas	91

Derbyniwyd Gan	Rhagosodiad deiseb	Nifer o Lofnodion
Coventry Asian Christian Fellowship	Mae priodas yn uniad rhwng un gŵr, un wraig wedi ei ordeinio gan Dduw	26
Drimbolg Reformed Presbyterian Church	Mae priodas yn uniad rhwng un gŵr, un wraig wedi ei ordeinio gan Dduw	44
Henaduriaeth Gyffredinol Ulster	Uniad gwirfoddol am oes o un gŵr ac un wraig	1643
Lisnadill Full Gospel Church, Gogledd Iwerddon	Mae cyfreithloni priodas gyfartal yn sarhaus i Dduw – mater i leiafrif	91
Eglwys Fethodistaidd Annibynnol Norwich	Yn erbyn newid i'r diffiniad	7
Deiseb yn erbyn Priodas o'r un Rhyw Preston/Manceinion	Tu allan i gymhwyster y Llywodraeth i newid strwythur traddodiadol Priodas. Camdriniaeth gan y lleiafrif o'r Ddeddf Cydraddoldeb	15
Deiseb Cerdyn Post	Uniad gwirfoddol o un gŵr ac un wraig	40
Real Marriage	Uniad gwirfoddol am oes o un gŵr ac un wraig	1028
St Peter's Church – Rickerscote	Mae priodas yn uniad rhwng un gŵr, un wraig wedi ei ordeinio gan Dduw	19

Atodiad B – Dadansoddiad o ymatebion

Pwy ymatebodd?

Nid oedd yn bosibl i ni ddadansoddi data personol y rhai a ymatebodd trwy fformatau nad oeddynt ar-lein, megis e-bost neu lythyr, gan na ddarparwyd yr wybodaeth hon yn gyffredinol

Gofynnodd y ffurflen ar-lein nifer o gwestiynau ynglŷn â'r rhai a ymatebodd. O'r data hwn fe wyddom fod:

- 52% wedi nodi eu bod yn heterorywiol neu syth
- 69% wedi nodi eu bod yn 40 oed neu hŷn
- 59% heb fod yn briod neu mewn partneriaeth sifil
- 41% yn nodi eu bod yn Gristnogion.

Mae'r darpariaethau hyn yn effeithio ar Gymru a Lloegr yn unig, ond derbyniom ac ystyriom ymatebion a anfonwyd o'r tu allan i Gymru a Lloegr. Mae hyn oherwydd y bydd yna unigolion yn, er enghraifft, Yr Alban neu Ogledd Iwerddon, neu alltudion yn byw dramor allai fod wedi eu heffeithio gan y cynigion.

Yn unol ag ymgynghoriadau eraill, sefydlwyd mesurau diogelwch i leihau ymatebion lluosog trwy ganiatáu cyflwyno dim ond un ymateb o un cyfrifiadur. Tra bod cyfyngu ymatebion lluosog o gyfrifiadur unigol yn fesur rhesymol i gyfyngu'r nifer o ymatebion dyblyg a dderbyniwyd, nid oedd yn rhesymol bosibl i atal pobl unigol rhag ymateb nifer lluosog o weithiau trwy amrywiaeth o ddulliau.

Rydym wedi bod yn glir y rhoddir ystyriaeth i'r ystod lawn o farnau a gyflwynwyd yn hytrach na dim ond y nifer o ymatebion a dderbyniwyd.

Ar y cyfan, roedd 53% o'r ymatebion o blaid a 46% o'r ymatebion yn erbyn cyflwyno priodas sifil i gyplau o'r un rhyw. O fewn yr ymatebion hyn:

- Roedd 85% o'r rhai yn ymateb trwy'r ffurflen ymgynghori ar-lein yn cefnogi caniatáu i gyplau gael seremoni briodas sifil waeth beth yw eu rhyw.
- Roedd 89% o'r rhai yn ymateb trwy e-bost a 94% trwy ohebiaeth yn gwrthwynebu'r cynigion i ganiatáu cwpl i gael seremoni sifil waeth beth yw eu rhyw (yn cynnwys ble casglwyd yr ateb o'r testun a gyflwynwyd).

Nodwyd tri grŵp o negeseuon e-bost: negeseuon oedd yn rhai neu bob un o'r cwestiynau penodol a gyflwynwyd gan yr ymgynghoriad; negeseuon a anfonwyd i gefnogi ymgyrch; a pob neges arall. O'r 91,000 o negeseuon e-bost, dywedodd 84% yn nheithl eu neges fod yr e-bost yn rhan o ymgyrch. Roedd 2 ymgyrch benodol:

- Roedd 99% o negeseuon e-bost ymgyrch yn gwrthwynebu caniatáu i gyplau, waeth beth yw eu rhyw, briodi.
- Roedd 99% o negeseuon e-bost oedd naill ai wedi defnyddio'r ffurflen ymgynghori neu'n ateb cwestiwn penodol yn yr ymgynghoriad yn gwrthwynebu caniatáu i gyplau o'r un rhyw briodi.
- Roedd 87% o'r negeseuon e-bost eraill yn cefnogi cyflwyno priodas sifil o'r un rhyw.

Ystyriwyd pob un o'r rhain yn rhan o ymateb y Llywodraeth a defnyddiwyd y fethodoleg isod i sicrhau fod pob un ohonynt yn cael ystyriaeth lawn. Rydym yn cydnabod fod yr atebion a roddwyd yn seiliedig ar gwestiynau a godwyd gan yr ymgynghoriad, oedd yn egluro cynigion y Llywodraeth. Mae hyn yn unol ag arfer da ar gyfer ymgynghoriad, ond y gallai fod wedi effeithio ar bwy atebodd yr ymgynghoriad a'r modd y'u hatebwyd.

Ymatebion i gwestiynau penodol

Cwestiwn 1: a ydych yn cytuno neu'n anghytuno gyda galluogi pob cwpl, waeth beth yw eu rhyw, i gael seremoni priodas sifil?

Mae'r dadansoddiad hwn yn cynnwys yr holl ymatebwyr a atebodd gwestiwn un, naill ai'n defnyddio'r ffurflen ar-lein neu trwy e-bost neu mewn gohebiaeth; a, pawb y casglwyd beth oedd eu hymateb i'r cwestiwn hwn yn defnyddio ymarfer codio¹⁶; ond, nid yw'n cynnwys deisebau, pob un yn erbyn, gyda dros 500,000 o lofnodion.

O'r 228,000 ymateb a dderbyniwyd:	
53%	yn cytuno y dylai pob cwpl, waeth beth yw eu rhyw, allu cael seremoni priodas sifil
46%	yn anghytuno y dylai pob cwpl, waeth beth yw eu rhyw, allu cael seremoni priodas sifil
>0.5%	ddim yn gwybod
>0.5%	heb ateb y cwestiwn hwn

¹⁶ Casglwyd y rhain trwy ymarfer codio oedd yn cynnwys yr holl sylwadau testun rhydd o'r ffurflen ar-lein, yn ogystal â sylwadau a wnaed mewn negeseuon e-bost a gohebiaeth; aseswyd sylwadau ymatebwyr yn erbyn cyfres o godau diffiniedig a gynlluniwyd i gipio materion sylweddol perthnasol i bwnc yr ymgynghoriad

Gwyddom hefyd o'r 137,000 o ymatebwyr a atebodd o leiaf un o'r cwestiynau penodol eraill fod:	
99%	o'r rhai a nododd eu bod yn lesbiaid neu'n hoyw yn credu y dylai pob cwpl, waeth beth yw eu rhyw, allu cael seremoni priodas sifil
77%	o'r rhai a nododd eu bod yn heterorywiol neu syth yn credu y dylai pob cwpl, waeth beth yw eu rhyw, allu cael seremoni priodas sifil
86%	o'r rhai a ddywedodd fod eu hunaniaeth rhywedd yr un â'r rhywedd a ddynodwyd iddynt pan y'u ganed, yn credu y dylai pob cwpl, waeth beth yw eu rhywedd, allu cael seremoni priodas sifil
96%	o'r rhai a ddywedodd nad yw hunaniaeth rhywedd yr un â'r rhywedd a ddynodwyd iddynt pan y'u ganed, yn credu y dylai pob cwpl, waeth beth yw eu rhywedd, allu cael seremoni priodas sifil
98%	o'r ymatebwyr a ddatganodd nad oeddynt yn rhan o unrhyw grefydd yn credu y dylai pob cwpl, waeth beth yw eu rhyw, allu cael seremoni priodas sifil
72%	o'r ymatebwyr a ddatganodd eu bod yn Gristnogion yn credu y dylai pob cwpl, waeth beth yw eu rhyw, allu cael seremoni priodas sifil

Cwestiynau 3-13 yn gynhwysol

Atebodd 137,000 o ymatebwyr o leiaf un o'r cwestiynau penodol eraill (cwestiynau 3-13 yn gynhwysol)¹⁷. Isod ceir dadansoddiad o atebion ymatebwyr i bob un o'r cwestiynau penodol hyn. Mae pob dadansoddiad yn cynrychioli barnau'r ymatebwyr hynny yn ateb cwestiynau penodol yn unig, ac nid yw'n cynrychioli naill ai barnau'r holl ymatebwyr i'r ymgynghoriad neu'r boblogaeth gyffredinol.

Cwestiwn 3: Os ydych yn nodi eich hun fel lesbiaidd, hoyw, deurywiol neu drawsrywiol, a hoffech gael seremoni priodas sifil?

O'r 44% o ymatebwyr a ddywedodd fod hyn yn berthnasol iddynt:	
81%	byddwn yn dymuno cael seremoni briodas sifil
6%	ni fyddwn eisiau cael seremoni briodas sifil
12%	ddim yn gwybod

¹⁷ Mae hyn yn cynnwys ymatebwyr a atebodd o leiaf un cwestiwn penodol a ofynnwyd iddynt gan yr ymgynghoriad, naill ai mewn neges e-bost neu ohebiaeth, yn ogystal â'r rhai yn defnyddio'r ffurflen ar-lein.

Cwestiwn 4: Os ydych yn cynrychioli grŵp o unigolion sy'n nodi eu hunain fel lesbiaidd, hoyw, deurywiol neu drawsrywiol, a hoffai'r rhai yr ydych yn eu cynrychioli gael seremoni priodas sifil?

O'r 7% o ymatebwyr a ddywedodd fod y cwestiwn hwn yn berthnasol iddynt:	
84%	byddai'r grŵp o unigolion yr wyf yn eu cynrychioli yn dymuno cael seremoni briodas sifil.
6%	ni fyddai'r grŵp o unigolion yr wyf yn eu cynrychioli yn dymuno cael seremoni briodas sifil.
10%	ddim yn gwybod

Cwestiwn 5: nid yw'r llywodraeth yn cynnig agor priodas crefyddol i gyplau un rhyw. A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno gyda'r cynnig hwn?

O'r 96% a ymatebodd i'r cwestiwn hwn	
27%	cytunaf y dylai seremonïau priodas crefyddol fod ar gael i gyplau o'r un rhyw
63%	anghytunaf y dylai seremonïau priodas crefyddol fod ar gael i gyplau o'r un rhyw
10%	ddim yn gwybod

Cwestiwn 6: A ydych yn cytuno neu'n anghytuno gyda'r opsiwn o ddarparu partneriaethau sifil i gyplau un rhyw unwaith y bydd priodas sifil ar gael?

O'r 94% a ymatebodd i'r cwestiwn hwn	
66%	cytunaf y dylid cadw partneriaethau sifil
20%	anghytunaf, ni ddylid cadw partneriaethau sifil.
14%	ddim yn gwybod

Cwestiwn 7: Os ydych yn nodi eich hun fel lesbiaidd, hoyw, deurywiol neu drawsrywiol, a'ch bod wedi ystyried gwneud ymrwymiad cyfreithiol i'ch partner, a fyddai'n well gennych gael partneriaeth sifil neu briodas sifil?

O'r 43% o ymatebwyr a ddywedodd fod y cwestiwn hwn yn berthnasol iddynt	
6%	yn ffafrio partneriaeth sifil
81%	yn ffafrio priodas sifil
7%	dim blaenoriaeth
6%	ddim yn gwybod

Cwestiwn 8: Nid yw'r llywodraeth yn ystyried cyflwyno partneriaethau sifil i gyplau rhyw arall. A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno gyda'r cynnig hwn?

O'r 94% a ymatebodd i'r cwestiwn hwn	
24%	yn cytuno, ni ddylai partneriaethau sifil fod ar gael i gyplau rhyw arall
61%	yn anghytuno, ac yn credu y dylai partneriaethau sifil fod ar gael i gyplau rhyw arall
15%	ddim yn gwybod

Cwestiwn 9: Os ydych mewn partneriaeth sifil a hoffech fanteisio ar y polisi hwn o drosi eich partneriaeth sifil i briodas?

O'r 17% o ymatebwyr a ddywedodd fod y cwestiwn hwn yn berthnasol iddynt	
87%	eisiau manteisio ar y polisi hwn
6%	ddim eisiau manteisio ar y polisi hwn
8%	ddim yn gwybod

Cwestiwn 10: Ni fyddem yn cynnig cyflwyno cyfyngiad amser ar y gallu i drosi partneriaeth sifil i briodas. A ydych yn cytuno neu'n anghytuno?

O'r 93% o bobl a ymatebodd i'r cwestiwn hwn	
81%	yn cytuno na ddylid cael cyfyngiad amser
7%	yn anghytuno y dylid cael cyfyngiad amser
12%	ddim yn gwybod

Cwestiwn 11: A ydych yn meddwl y dylid cael dewis i gael seremoni sifil ar drosi partneriaeth sifil i briodas?

O'r 94% a ymatebodd i'r cwestiwn hwn	
81%	cytuno, dylid cael dewis i gynnal seremoni
9%	anghytuno, ni ddylid cael dewis i gynnal seremoni
10%	ddim yn gwybod

Cwestiwn 12: Os ydych yn berson trawsrywiol priod, a hoffech fanteisio ar y polisi hwn a pharhau i fod yn eich priodas tra'n cael Tystysgrif Cydnabod Rhyw llawn?

O'r 3% o ymatebwyr a ddywedodd fod y cwstiwn hwn yn berthnasol iddynt	
79%	eisiau manteisio ar y polisi hwn
7%	ddim eisiau manteisio ar y polisi hwn
14%	ddim yn gwybod

Cwestiwn 13: Os ydych yn gymar i berson trawsrywiol, a hoffech fanteisio ar y polisi hwn a pharhau i fod yn eich priodas tra bod eich cymar yn cael Tystysgrif Cydnabod Rhyw llawn?

O'r 3% o ymatebwyr a ddywedodd fod y cwstiwn hwn yn berthnasol iddynt:	
79%	eisiau manteisio ar eu polisi
7%	ddim eisiau manteisio ar eu polisi
14%	ddim yn gwybod

Asesu'r ymatebion

Ymateb i'r cwstiynau ymgynghori: Cyflwynodd yr ymgynghoriad nifer o gwestiynau penodol fel yr amlinellir uchod. Storiwyd ymatebion ar-lein yn electronig a gellid casglu dadansoddiad o'r ymatebion hyn i gwestiynau penodol yn awtomatig yn defnyddio'r offeryn arolwg a ddefnyddiwyd i gasglu data. Fodd bynnag, ymatebodd rhai ymatebwyr i gwestiynau'r ymgynghoriad trwy ohebiaeth neu e-bost; ychwanegwyd ymatebion i'r cwstiynau a ddefnyddiwyd fel hyn â llaw i offeryn yr arolwg a'u cynnwys yn y coladiad cyffredinol.

Ymatebion penagored: Gofynnodd yr ymgynghoriad hefyd bedwar cwstiwn agored, wedi cipio'r ymatebion yn rhan o'r broses o ddeall yr ymateb cyffredinol i'r ymgynghoriad. Casglwyd barnau ymatebwyr trwy ymarfer codio oedd yn gofyn am ddarllen yr holl sylwadau testun rhydd o ffurflen ar-lein, a'r holl sylwadau a wnaed mewn negeseuon e-bost a gohebiaeth. Yna fe aseswyd sylwadau ymatebwyr yn erbyn cyfres o godau diffiniedig a gynlluniwyd i gipio materion sylweddol perthnasol i'r ymgynghoriad.

Cwblhawyd y codio gan dîm ymroddedig a hyfforddedig o godwyr. Gwiriwyd sampl o'r holl ymatebwyr i sicrhau fod codio yn gywir. Gwnaed hyn yn ar sail ddyddiol.

Llyfr cod

Ystyriwyd pob ymateb penagored yn defnyddio llyfr cod a gynlluniwyd yn benodol i alluogi casglu'r nifer fawr hon o ddeunydd. Roedd hyn yn ein caniatáu i gategoreiddio'r ymatebion a roddwyd dan nifer o themâu trosfwaol dan y pennawd cyffredinol o 'Cefnogol', 'Nid yn gefnogol', codau eraill, codau materion, a chodau cost budd.

Roedd y llyfr cod yn cynnwys set o godau a ddatblygwyd i ddynodi pa fater neu faterion sylweddol perthnasol i'r ymgynghoriad a godwyd. Gwnaed hyn trwy ddethol sampl ar hap o 1,000 o ymatebion, ar

draws detholiad o fathau o ymatebion (ar-lein, e-bost, gohebiaeth), a nodi pob mater sylweddol a godwyd yn yr ymatebion hyn, a ddynodwyd i themâu trosfwaol. Yna fe ddatblygwyd catalog o'r codau hyn (y cyfeiriwyd ato fel 'llyfr cod') yn seiliedig ar y themâu hyn, a restrodd yr holl godau perthnasol i'w defnyddio a darparu enghreifftiau manylach o'r rhain. Datblygwyd categorïau o godau i gwmpasu:

- i. pwyntiau oedd yn gefnogol i'r cynnig i gyflwyno priodas sifil gyfartal;
- ii. pwyntiau nad oedd yn gefnogol i'r cynnig i gyflwyno priodas sifil gyfartal;
- iii. sylwadau eraill ynglŷn â'r cynnig ac nad oeddynt wedi eu cynnwys yn yr uchod
- iv. sylwadau ynglŷn ag effeithiau ôl-ddilynol cyflwyno priodas sifil gyfartal
- v. sylwadau ynglŷn â chostau a buddiannau cyflwyno priodas sifil gyfartal
- vi. codau proses oedd yn cipio sylwadau manwl ynglŷn â chostau a buddiannau ac yn cynnwys cod 'unigryw' i gipio sylwadau nad ydynt eisoes wedi eu cwmpasu gan i-v.

Ceir manylion pellach ar y codau yn y tabl isod:

i O Blaid	<ul style="list-style-type: none"> • Dadleuon democratiaeth / cydraddoldeb o blaid priodas sifil gyfartal • Dadleuon ar bwysigrwydd neu natur priodas i BOB cwpl (nid yn seiliedig ar ddysgeidiaeth grefyddol) • Bydd priodas gyfartal yn dda i gymdeithas ehangach / y Deyrnas Unedig • Cefnogi priodas gyfartal oherwydd dysgeidiaeth grefyddol • Cred y dylai cyrff crefyddol allu priodi cyplau o'r un rhyw os ydynt yn dymuno gwneud hynny • Mae partneriaethau sifil yn wahanol i briodas, ac felly dylai cyplau o'r un rhyw allu priodi
ii Yn erbyn	<ul style="list-style-type: none"> • Cwestiynu dadleuon democratiaeth / cydraddoldeb o blaid priodas gyfartal • Dadleuon ar bwysigrwydd neu natur priodas – eithrio cyplau o'r un rhyw (nid yn seiliedig ar ddysgeidiaeth grefyddol) • Bydd priodas gyfartal yn ddrwg i gymdeithas / y Deyrnas Unedig • Yn erbyn priodas gyfartal oherwydd cred neu ddysgeidiaeth grefyddol • Cyrff crefyddol yn teimlo y byddant yn cael eu gorfodi i briodi cyplau o'r un rhyw, hyd yn oed os nad ydynt eisiau gwneud hynny • Partneriaethau sifil yn cyfateb i briodas ac felly nid oes angen priodas gyfartal, gan nad oes unrhyw fantais atodol
iii Sylwadau eraill	<ul style="list-style-type: none"> • Credu y dylid gwneud partneriaethau sifil yn agored i gyplau rhyw arall • Ddim yn credu y dylai partneriaethau sifil fod yn agored i gyplau rhyw arall • Credu y dylid diddymu partneriaethau sifil • Credu y dylai partneriaethau sifil barhau • Nid oes mandad democrataidd / galw am briodas gyfartal • Yn erbyn pob priodas • Credu y dylai / bod yn rhaid i sefydliadau crefyddol gynnal seremonïau priodas crefyddol i gyplau o'r un rhyw • Materion yn ymwneud ag aillbennu rhywedd

iv materion penodol a godwyd	<ul style="list-style-type: none"> • Pensiynau • Prosesau gweinyddol ar gyfer priodas a phartneriaeth sifil • Cydnabyddiaeth ryngwladol • Datganoli • Angen newid i ddeddfwriaeth arall • Hawliau treth a budd-daliadau • Hawliau rhianta (yn cynnwys mabwysiadu a chofrestru genedigaeth) • Rheolau mewnfudo • Gallu sefydliadau crefyddol i bregethu a dysgu eu credoau ar y diffiniad o briodas • Addysgu am briodasau o'r un rhyw mewn ysgolion • Cyfreithiau anghyflawniad a godineb
v materion cost / budd a godwyd	<ul style="list-style-type: none"> • Pensiynau • Prosesau gweinyddol ar gyfer priodas a phartneriaeth sifil • Treth, lles a budd-daliadau eraill • Costau byw • Incwm • Sector preifat • Sector cyhoeddus (yn cynnwys cyfeiriadau at adnoddau'r Llywodraeth)
vi proses	<ul style="list-style-type: none"> • Ymateb technegol manwl i FATER neu GOST / BUDD • Problem gyda dogfen / proses / cwestiynau'r ymgynghoriad • Angen ailddarlleniad • Bygythiad treisgar neu ddi-drais • Unigryw

I ddadansoddi'r ymatebion testun rhydd, datblygwyd set o godau i gipio ymateb ar fyrder. Datblygwyd llyfr cod oedd yn dynodi pa fater neu faterion sylweddol perthnasol i'r ymgynghoriad a godwyd. Gwnaed hyn trwy ddethol sampl ar hap o 1,000 o ymatebion, ar draws detholiad o fathau o ymatebion (ar-lein, e-bost, gohebiaeth), a nodi pob mater sylweddol a godwyd yn yr ymatebion hyn, a ddynodwyd i themâu troswaol. Yna fe ddatblygwyd catalog o'r codau hyn (y cyfeiriwyd ato fel 'llyfr cod') yn seiliedig ar y themâu hyn, a restrodd yr holl godau perthnasol i'w defnyddio a darparu enghreifftiau manylach o'r rhain. Datblygwyd categorïau o godau i gwmpasu:

- i. pwyntiau a wnaed i gefnogi'r cynnig i gyflwyno priodas sifil gyfartal;
- ii. pwyntiau a wnaed yn erbyn y cynnig i gyflwyno priodas sifil gyfartal;
- iii. sylwadau eraill ynglŷn â'r cynnig ac nad oeddynt wedi eu cynnwys yn yr uchod
- iv. sylwadau ynglŷn ag effeithiau ôl-ddilynol o gyflwyno priodas sifil gyfartal
- v. sylwadau ynglŷn â chostau a buddiannau cyflwyno priodas sifil gyfartal
- vi. codau proses oedd yn cipio sylwadau manwl ynglŷn â chostau a buddiannau ac yn cynnwys cod 'unigryw' i gipio sylwadau nad ydynt eisoes wedi eu cwmpasu

Wrth gyfeirio at y ffigurau o'r codio hwn, rydym wedi defnyddio'r cynllun meintioliad canlynol, i adlewyrchu natur ddeongliadol y dadansoddiad hwn.

Bron i bob un – 90% neu fwy

Y rhan fwyaf – 75% i 89%

Y mwyafrif – 50% i 74%

Nifer – 33% i 49%

Rhai – 10% i 32%

Nifer – 4% i 9%

Ambell un – 0.1% i 3%

Codau materion a chost / budd

Yn dilyn y dadansoddiad cyffredinol o'r holl ymatebion, fe ystyriwyd yr 19,639 o ymatebion oedd yn cynnwys 'codau materion' a 4,844 o ymatebion oedd yn cynnwys 'codau cost budd' ymhellach i echdynnu'r pwyntiau ac awgrymiadau penodol a godwyd. Yna cynhwyswyd y rhain yn y ddogfen ymateb hon, gan ei defnyddio hefyd i hysbysu'r Aseiad Effaith.

Ymatebion gan sefydliadau

Dadansoddwyd yr ymatebion a dderbyniwyd gan sefydliadau a nododd pwy oeddynt yn defnyddio'r llyfr cod a ddisgrifir uchod. Yn gyffredinol roedd yr ymatebion hyn yn cynnwys cryn dipyn o fanylion, gan eu bod wedi eu cyflwyno gan sefydliadau gyda chryn dipyn o arbenigedd yn eu maes. Ystyriwyd pob un ohonynt wrth gwblhau'r cynigion terfynol.

ISBN: 978-1-78246-036-7
© Hawlfraint y Goron 2012

Gallwch aildefnyddio'r wybodaeth hon (heb gynnwys logos) yn rhad ac am ddim ar unrhyw fformat neu gyfrwng, dan amodau'r Drwydded Llywodraeth Agored.

I weld y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/ neu ysgrifennwch at Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU, neu e-bost: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau parthed y cyhoeddiad hwn atom yn:

Swyddfa Cydraddoldeb y Llywodraeth,
3rd Floor Fry Building,
2 Marsham Street,
Llundain
SW1P 4DF

E-bost: equalmarriage@geo.gsi.gov.uk
Ffôn: 020 7035 4848